Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent



# Llyfryn Gwybodaeth Ysgol i Rieni/Gofalwyr

## Gwneud cais am le mewn ysgol ar gyfer 2025/2026

Dyddiad Cyhoeddi: 1 Medi 2024

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Rhagair

Annwyl Rieni/Gwarcheidwaid a Gofalwyr,

Mae dechrau yn yr ysgol a symud o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd yn gamau pwysig iawn i chi a'ch plentyn. Rydym yma i helpu i lywio eich penderfyniad am yr ysgol yr ydych yn ei dewis ar gyfer eich plentyn a/neu blant.

Rydym yn argymell eich bod yn ymweld â'r ysgolion ym Mlaenau Gwent sydd o ddiddordeb i chi, a fydd yn rhoi'r cyfle i chi ddarganfod beth sydd gan bob ysgol i'w gynnig.

Rydym yn derbyn nifer o geisiadau gan drigolion Blaenau Gwent a chan drigolion sy'n byw y tu allan i Flaenau Gwent. Mae gan bob ysgol nifer penodol o leoedd a defnyddir y meini prawf derbyn, yn unol â Chod Derbyn i Ysgolion Llywodraeth Cymru (2013), i benderfynu pwy fydd yn cael cynnig lleoedd.

Mae'n bwysig eich bod yn deall pa mor debygol yw hi y bydd eich plentyn yn cael cynnig lle yn un o'ch dewis ysgolion. Bydd yr wybodaeth a ddarperir yn y llyfryn hwn yn eich helpu i ddeall a chwblhau'r broses ymgeisio.

Unwaith y byddwch wedi penderfynu pa ysgolion yr hoffech wneud cais i'ch plentyn eu mynychu, cwblhewch y ffurflen berthnasol a'i dychwelyd erbyn y dyddiad cau.

Dymunwn bob llwyddiant i'ch plentyn yn yr ysgol ac i'r dyfodol.



**Louisa Munro - Morris**
Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro, Addysg

**Mae'r llyfryn hwn yn esbonio sut i wneud cais am le mewn ysgol ar gyfer blwyddyn academaidd 2025/26.**

## Derbyniadau dosbarth meithrin 2025

Mae gan bob plentyn sy'n byw ym Mlaenau Gwent hawl i le addysg ran-amser am ddim yn y tymor yn dilyn eu trydydd pen-blwydd. Cyfeirir at hyn yn gyffredin fel lle 'plant sy'n codi'n 3 oed'. Mae mynediad i leoliadau meithrin fel arfer yn golygu bod eich plentyn yn mynychu'n rhan amser am bum diwrnod yr wythnos.

- Os yw'ch plentyn yn 3 oed rhwng **1 Medi 2024 a 31 Rhagfyr 2024**, bydd yn gymwys i gael lle 'plant sy'n codi'n 3 oed' yn nhymor y gwanwyn, sef o **Ionawr 2025**.
- Os yw'ch plentyn yn 3 oed rhwng **1 Ionawr 2025 a 27 Ebrill 2025**, bydd yn gymwys i gael lle 'plant sy'n codi'n 3 oed' yn nhymor yr haf, sef o **Ebrill 2025**.
- Os yw'ch plentyn yn 3 oed rhwng 28 Ebrill 2025 a 31 Awst 2025, bydd yn gymwys i gael lle 'plant sy'n codi'n 3 oed' yn nhymor yr hydref, sef o **Fedi 2025**.

*Os ydych yn dymuno i'ch plentyn fynychu darpariaeth feithrin, bydd angen i chi wneud cais am le meithrin ar gyfer 2025. Nodir dyddiadau'r cylch derbyn ar gyfer dosbarthiadau meithrin ar dudalen 4.

*Sylwer nad yw mynychu dosbarth meithrin yn rhoi blaenoriaeth i'ch plentyn am le yng ngrwp y flwyddyn dderbyn yn yr ysgol gynradd honno, gan fod angen cais ar wahân.

## Derbyniadau dosbarth derbyn 2025

Os cafodd eich plentyn ei eni rhwng **1 Medi 2020 a 31 Awst 2021**, bydd angen i chi wneud cais am le mewn dosbarth derbyn ar gyfer mis Medi 2025. Hyd yn oed os ydych am i'ch plentyn ddechrau'r ysgol yn hwyrach (y tymor ar ôl i'ch plentyn fod yn 5 oed), mae'n rhaid i chi wneud cais o hyd yn ystod y cylch derbyn ar gyfer dosbarthiadau derbyn a nodir ar dudalen 4.

## Derbyniadau uwchradd 2025

Os cafodd eich plentyn ei eni rhwng **1 Medi 2013 a 31 Awst 2014**, bydd angen i chi wneud cais am le mewn ysgol uwchradd ar gyfer Medi 2025. Rhaid i chi wneud cais yn ystod y cylch derbyn ar gyfer ysgolion uwchradd a nodir ar dudalen 4.

I gael rhagor o wybodaeth neu i siarad ag aelod o'r tîm derbyn, cyfeiriwch at y manylion cyswllt ar waelod pob tudalen yn y llyfryn hwn.


Cyfarwyddiaeth Addysg, Swyddfeydd Cyffredinol, Heol Gwaith Dur, Glynebwy. NP23 6DN

# Cynnwys

**Mae'r wybodaeth yn y llyfryn hwn wedi'i gosod mewn pum adran:**

## Adran 1


| | |
|---|---|
| Lleoliadau blynyddoedd cynnar | 6 |
| A-Y o ysgolion cynradd ac uwchradd cymunedol | 7 - 10 |
| Cymuned Ddysgu Ebwy Fawr | 11 |
| Cymuned Ddysgu Abertyleri | 11 - 12 |
| Darpariaeth cyfrwng Cymraeg | 13 - 14 |
| Ysgol sefydledig | 15 |
| Ysgolion ffydd / gwirfoddol a gynorthwyir | 16 - 19 |
| Ysgol arbennig | 19 |
| Cymuned Ddysgu 3-16 Canolfan yr Afon | 20 |
| Ydych chi eisiau i'ch plentyn fod yn ddwyieithog? | 21 - 24 |


## Adran 2


| | |
|---|---|
| Gwneud cais am le mewn ysgol ym mis Medi 2025 | 25 |
| Cyn i chi wneud eich cais | 25 |
| Cwblhau eich ffurflen gais | 26 - 30 |
| Sut byddwn yn prosesu eich cais | 31 |
| Pryd byddaf yn gwybod canlyniad fy nghais | 32 - 33 |
| Sut i sicrhau bod gennych y cyfle gorau o gael cynnig lle yn eich dewis ysgol | 34 |
| Gwybodaeth am apeliadau | 35 |
| Meini prawf goralw ysgolion | 36 - 37 |
| Pwysigrwydd immiwneiddio | 38 |


## Adran 3


| | |
|---|---|
| Ysgolion mewn awdurdodau lleol eraill | 39 |


## Section 4


| | |
|---|---|
| Derbyniadau yn ystod y flwyddyn | 40 |


## Section 5


| | |
|---|---|
| Diffiniadau a gwybodaeth arall | 42 - 54 |

# Dyddiadau pwysig

## Dyddiadau allweddol ar gyfer derbyniadau 2025

| Dyddiad | Beth sy'n digwydd |
|---|---|
| **Dosbarthiadau Meithrin** | |
| 7 Medi 2024 | Mae'r cylch derbyn ar gyfer dosbarthiadau meithrin yn cychwyn |
| 18 Hydref 2024 **(5pm)** | Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau am le mewn dosbarth meithrin |
| 22 Tachwedd 2024 | Dyddiad cynnig ar gyfer lleoedd mewn dosbarthiadau meithrin |
| **Dosbarthiadau derbyn** | |
| 6 Ionawr 2025 | Mae'r cylch derbyn ar gyfer dosbarthiadau derbyn yn cychwyn |
| 21 Chwefror 2025 **(5pm)** | Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau am le mewn dosbarth derbyn |
| 16 Ebrill 2025 | Dyddiad cynnig ar gyfer lleoedd mewn dosbarthiadau derbyn |
| **Ysgolion uwchradd** | |
| 23 Medi 2024 | Mae'r cylch derbyn ar gyfer lleoedd mewn ysgolion uwchradd yn cychwyn |
| 15 Tachwedd 2024 **(5pm)** | Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau am le mewn ysgol uwchradd |
| 3 Mawrth 2025 | Dyddiad cynnig ar gyfer lleoedd mewn ysolion uwchradd |

Dylid cyflwyno pob cais a thystiolaeth ategol ddim hwyrach na 5pm ar y dyddiadau cau a nodir yn y tabl uchod.

## Dyddiadau tymhorau 2025/2026

| Dyddiad | Dechrau | Dechrau Hanner Tymor | Diwedd Hanner Tymor | Diwedd y Tymor |
|---|---|---|---|---|
| Hydref | 01/09/2025 | 27/10/2025 | 31/10/2025 | 19/12/2025 |
| Gwanwyn | 05/01/2026 | 16/02/2026 | 20/02/2026 | 27/03/2026 |
| Haf | 13/04/2026 | 25/05/2026 | 29/05/2026 | 20/07/2026 |

# Lleoliad ysgolion Blaenau Gwent

**Allwedd:**

- Ysgolion cynradd
- Ysgolion ffydd
- Darpariaeth ddysgu 3–16
- Ysgol cyfrwng Cymraeg
- Ysgol gyfun
- Ysgol arbennig
- Ysgol sefydledig




1 Ysgol Gynradd Bryn-bach
2 Ysgol Gatholig Sant Joseff
3 Ysgol Gynradd Glanhywi
4 Ysgol Gynradd Deighton
5 Ysgol Gynradd Georgetown
6 Ysgol Gyfun Tredegar
7 Ysgol Gynradd Rhos y Fedwen
8 Ysgol Gynradd Glyn-coed
9 Ysgol Gatholig yr Holl Saint
10 Ysgol Gynradd Willowtown
11 Ysgol Gynradd Beaufort Hill
12 Cymuned Ddysgu Ebwy Fawr – Cyfnod Uwchradd
13 Cymuned Ddysgu Ebwy Fawr – Cyfnod Cynradd
14 Ysgol Arbennig Pen-y-cwm
15 Ysgol Gynradd Cwm
16 Ysgol Sefydledig Bryn-mawr
17 Ysgol yr Eglwys yng Nghymru y Santes Fair
18 Ysgol Gatholig y Santes Fair
19 Ysgol Gynradd Blaen-y-cwm
20 Ysgol Gymraeg Bro Helyg
21 Ysgol Gynradd Coed-y-Garn
22 Ysgol Gynradd Ystruth
23 Cymuned Ddysgu Abertyleri – Campws Heol Roseheyworth
24 Cymuned Ddysgu Abertyleri – Campws Uwchradd
25 Cymuned Ddysgu Abertyleri – Campws Stryd Tyleri
26 Cymuned Ddysgu Abertyleri - Campws Six Bells
27 Ysgol Gynradd Sant Illtyd
28 Ysgol Gynradd Swffryd
29 Cymuned Ddysgu 3–16 Canolfan yr Afon – Campws Uwchradd
30 Cymuned Ddysgu 3–16 Canolfan yr Afon – Campws Cynradd
31 Cymuned Ddysgu 3–16 Canolfan yr Afon – Ty

# Lleoliadau blynyddoedd cynnar

Efallai y bydd rhai rhieni'n dewis cael lle rhan-amser am ddim eu plentyn mewn cylch chwarae neu feithrinfa ddydd breifat, yn enwedig os yw'r plentyn eisoes yn mynychu un. Isod mae rhestr o'r holl leoliadau blynyddoedd cynnar sydd wedi'u cofrestru i ddarparu addysg blynyddoedd cynnar. Mae ansawdd pob lleoliad blynyddoedd cynnar sydd wedi'i gofrestru i ddarparu addysg wedi'i sicrhau.

**Meithrinfa Acorns**
Ysgol Gynradd Rhos y Fedwen, Heol Maes Mêl, Rasa, Glynebwy. NP23 5TA
**Grwp Oedran:** 2 – 4 years | **Ffôn:** 07534 927264 | **E-bost:** acornsnursery@aol.com

**Gofal Dydd Tiggy's**
Ysgol Gynradd Bryn-bach, Heol Merthyr, Tredegar. NP22 3RX
**Grwp Oedran:** 0 – 4 oed | **Ffôn:** 07561 601642 | **E-bost:** tiggysafterschoolclub@hotmail.com

**Cylch Meithrin Gwdihw (Brynithel)**
Canolfan Dechrau'n Deg Brynithel, Ystad Pen-rhiw, Brynithel. NP13 2GZ
**Grwp Oedran:** 2 – 4 oed | **Ffôn:** 01495 355324 | **E-bost:** cylchmeithrinbrynithel@meithrin.cymru

Mae'n bosibl y bydd lleoliadau eraill yn cael eu cofrestru yn ystod y flwyddyn, felly gwiriwch gyda'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd. Ceir manylion llawn y lleoliadau hyn ar wefan y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd neu drwy gysylltu â'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd:

**Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd**
Canolfan Integredig i Blant, Stryd Fawr, Blaenau. NP13 3BN
**Rhadffôn:** 08000 32 33 39 | **E-bost:** fis@blaenau-gwent.gov.uk

**Ysgrifennwch at:**
Canolfan Integredig i Blant, Stryd Fawr, Blaenau. NP13 3BN
**Ewch i: https://www.blaenau-gwent.gov.uk/cy/preswylwyr/iechyd-lles-a-gofal-cymdeithasol/cefnogaeth-i-blant-a-theuluoedd/gwasanaeth-gwybodaeth-i-deuluoedd/**

# Ysgolion ym Mlaenau Gwent

## A-Y o ysgolion cynradd ac uwchradd cymunedol

### Ysgol Gynradd Beaufort Hill

Heol Bangor, Beaufort Hill, Cendl, Glynebwy. NP23 5QG
**Ffôn:** 01495 302624 | **E-bost:** beauforthill.primary@blaenau-gwent.gov.uk
**Pennaeth:** Phil Brookman

| | | | |
|---|---|---|---|
| Nifer derbyn – dosbarth meithrin | 30 | Nifer y ceisiadau ar amser a dderbyniwyd ar gyfer 2024/2025 (dosbarth derbyn) | 30 |
| Nifer derbyn – dosbarth derbyn | 30 | Nifer y ceisiadau ar amser a wrthodwyd ar gyfer 2024/2025 (dosbarth derbyn) | 0 |
| Capasiti'r Ysgol | 210 | Nifer yr apeliadau llwyddiannus ar amser ar gyfer 2024/2025 (dosbarth derbyn) | 0 |

### Ysgol Gynradd Blaen-y-cwm

Heol Blaenafon, Bryn-mawr. NP23 4BR
**Ffôn:** 01495 313524 | **E-bost:** blaenycwm.primary@blaenau-gwent.gov.uk
**Pennaeth:** Sarah Bryant

| | | | |
|---|---|---|---|
| Nifer derbyn – dosbarth meithrin | 26 | Nifer y ceisiadau ar amser a dderbyniwyd ar gyfer 2024/2025 (dosbarth derbyn) | 20 |
| Nifer derbyn – dosbarth derbyn | 38 | Nifer y ceisiadau ar amser a wrthodwyd ar gyfer 2024/2025 (dosbarth derbyn) | 0 |
| Capasiti'r Ysgol | 270 | Nifer yr apeliadau llwyddiannus ar amser ar gyfer 2024/2025 (dosbarth derbyn) | 0 |

The school will offer full time Nursery provision for 2025.

### Ysgol Gynradd Bryn-bach

Heol Merthyr, Tredegar. NP22 3RX
**Ffôn:** 01495 722569 | **E-bost:** brynbach.primary@blaenau-gwent.gov.uk
**Pennaeth:** Matthew Oliver

| | | | |
|---|---|---|---|
| Nifer derbyn – dosbarth meithrin | 30 | Nifer y ceisiadau ar amser a dderbyniwyd ar gyfer 2024/2025 (dosbarth derbyn) | 25 |
| Nifer derbyn – dosbarth derbyn | 30 | Nifer y ceisiadau ar amser a wrthodwyd ar gyfer 2024/2025 (dosbarth derbyn) | 0 |
| Capasiti'r Ysgol | 210 | Nifer yr apeliadau llwyddiannus ar amser ar gyfer 2024/2025 (dosbarth derbyn) | 0 |

**Ysgol Gynradd Coed-y-garn**
Rhes Parot, Blaenau. NP13 3AH
**Ffôn:** 01495 290044 | **E-bost:** coed-y-garn.primary@blaenau-gwent.gov.uk
**Pennaeth:** Lauren Cairns

| | | | |
|---|---|---|---|
| Nifer derbyn – dosbarth meithrin | 30 | Nifer y ceisiadau ar amser a dderbyniwyd ar gyfer 2024/2025 (dosbarth derbyn) | 6 |
| Nifer derbyn – dosbarth derbyn | 30 | Nifer y ceisiadau ar amser a wrthodwyd ar gyfer 2024/2025 (dosbarth derbyn) | 0 |
| Capasiti'r Ysgol | 210 | Nifer yr apeliadau llwyddiannus ar amser ar gyfer 2024/2025 (dosbarth derbyn) | 0 |

Bydd yr ysgol yn cynnig darpariaeth feithrin amser llawn ar gyfer 2025.

**Ysgol Gynradd Cwm**
Stryd Canning, Cwm. NP23 7RD
**Ffôn:** 01495 364825 | **E-bost:** cwm.primary@blaenau-gwent.gov.uk
**Pennaeth:** Jayne Jones

| | | | |
|---|---|---|---|
| Nifer derbyn – dosbarth meithrin | 52 | Nifer y ceisiadau ar amser a dderbyniwyd ar gyfer 2024/2025 (dosbarth derbyn) | 23 |
| Nifer derbyn – dosbarth derbyn | 30 | Nifer y ceisiadau ar amser a wrthodwyd ar gyfer 2024/2025 (dosbarth derbyn) | 0 |
| Capasiti'r Ysgol | 210 | Nifer yr apeliadau llwyddiannus ar amser ar gyfer 2024/2025 (dosbarth derbyn) | 0 |

**Ysgol Gynradd Deighton**
Ffordd Stockton, Tredegar. NP22 3ES
**Ffôn:** 01495 722567 | **E-bost:** Deighton.primary@blaenau-gwent.gov.uk
**Pennaeth:** Huw Waythe

| | | | |
|---|---|---|---|
| Nifer derbyn – dosbarth meithrin | 30 | Nifer y ceisiadau ar amser a dderbyniwyd ar gyfer 2024/2025 (dosbarth derbyn) | 28 |
| Nifer derbyn – dosbarth derbyn | 30 | Nifer y ceisiadau ar amser a wrthodwyd ar gyfer 2024/2025 (dosbarth derbyn) | 0 |
| Capasiti'r Ysgol | 210 | Nifer yr apeliadau llwyddiannus ar amser ar gyfer 2024/2025 (dosbarth derbyn) | 0 |

**Ysgol Gynradd Georgetown**
Heol Oakfield, Tredegar. NP22 4LJ
**Ffôn:** 01495 717341 | **E-bost:** georgetown.primary@blaenau-gwent.gov.uk
**Pennaeth:** Lisa Thomas

| | | | |
|---|---|---|---|
| Nifer derbyn – dosbarth meithrin | 60 | Nifer y ceisiadau ar amser a dderbyniwyd ar gyfer 2024/2025 (dosbarth derbyn) | 38 |
| Nifer derbyn – dosbarth derbyn | 60 | Nifer y ceisiadau ar amser a wrthodwyd ar gyfer 2024/2025 (dosbarth derbyn) | 0 |
| Capasiti'r Ysgol | 420 | Nifer yr apeliadau llwyddiannus ar amser ar gyfer 2024/2025 (dosbarth derbyn) | 0 |

## Ysgol Gynradd Glanhywi

Coach Bach, Tredegar, NP22 4RW
**Ffôn:** 01495 722312 | **E-bost:** Glanhowy.primary@blaenau-gwent.gov.uk
**Pennaeth:** Rebecca Fowler

| | | | |
|---|---|---|---|
| Nifer derbyn – dosbarth meithrin | 65 | Nifer y ceisiadau ar amser a dderbyniwyd ar gyfer 2024/2025 (dosbarth derbyn) | 29 |
| Nifer derbyn – dosbarth derbyn | 42 | Nifer y ceisiadau ar amser a wrthodwyd ar gyfer 2024/2025 (dosbarth derbyn) | 0 |
| Capasiti'r Ysgol | 296 | Nifer yr apeliadau llwyddiannus ar amser ar gyfer 2024/2025 (dosbarth derbyn) | 0 |

## Ysgol Gynradd Glyn-coed

Gelli Badminton, Glynebwy, NP23 5UL
**Ffôn:** 01495 302402 | **E-bost:** joanne.weightman@blaenau-gwent.gov.uk
**Pennaeth:** Joanne Weightman

| | | | |
|---|---|---|---|
| Nifer derbyn – dosbarth meithrin | 52 | Nifer y ceisiadau ar amser a dderbyniwyd ar gyfer 2024/2025 (dosbarth derbyn) | 38 |
| Nifer derbyn – dosbarth derbyn | 45 | Nifer y ceisiadau ar amser a wrthodwyd ar gyfer 2024/2025 (dosbarth derbyn) | 0 |
| Capasiti'r Ysgol | 320 | Nifer yr apeliadau llwyddiannus ar amser ar gyfer 2024/2025 (dosbarth derbyn) | 0 |

## Ysgol Gynradd Rhos y Fedwen

Heol Maes Mêl, Rasa, Glynebwy, NP23 5TA
**Ffôn:** 01495 356021 | **E-bost:** rhosyfedwen.primary@blaenau-gwent.gov.uk
**Pennaeth:** Sarah Helm

| | | | |
|---|---|---|---|
| Nifer derbyn – dosbarth meithrin | 26 | Nifer y ceisiadau ar amser a dderbyniwyd ar gyfer 2024/2025 (dosbarth derbyn) | 16 |
| Nifer derbyn – dosbarth derbyn | 25 | Nifer y ceisiadau ar amser a wrthodwyd ar gyfer 2024/2025 (dosbarth derbyn) | 0 |
| Capasiti'r Ysgol | 177 | Nifer yr apeliadau llwyddiannus ar amser ar gyfer 2024/2025 (dosbarth derbyn) | 0 |

Bydd yr ysgol yn cynnig darpariaeth feithrin amser llawn ar gyfer 2024.

## Ysgol Gynradd Sant Illtyd

Llanhiledd, Abertyleri, NP13 2JT
**Ffôn:** 01495 364830 | **E-bost:** info@stilltydsprimary.co.uk
**Pennaeth dros dro:** Adele Matthews

| | | | |
|---|---|---|---|
| Nifer derbyn – dosbarth meithrin | 30 | Nifer y ceisiadau ar amser a dderbyniwyd ar gyfer 2024/2025 (dosbarth derbyn) | 19 |
| Nifer derbyn – dosbarth derbyn | 30 | Nifer y ceisiadau ar amser a wrthodwyd ar gyfer 2024/2025 (dosbarth derbyn) | 0 |
| Capasiti'r Ysgol | 210 | Nifer yr apeliadau llwyddiannus ar amser ar gyfer 2024/2025 (dosbarth derbyn) | 0 |

## Ysgol Gynradd Swffryd

Heol Sofrydd, Swffryd, Crymlyn, NP13 5DW
**Ffôn:** 01495 244003 | **E-bost:** Sofrydd.primary@blaenau-gwent.gov.uk
**Pennaeth:** Helen Hickinbottom

| | | | |
|---|---|---|---|
| Nifer derbyn – dosbarth meithrin | 19 | Nifer y ceisiadau ar amser a dderbyniwyd ar gyfer 2024/2025 (dosbarth derbyn) | 10 |
| Nifer derbyn – dosbarth derbyn | 23 | Nifer y ceisiadau ar amser a wrthodwyd ar gyfer 2024/2025 (dosbarth derbyn) | 0 |
| Capasiti'r Ysgol | 162 | Nifer yr apeliadau llwyddiannus ar amser ar gyfer 2024/2025 (dosbarth derbyn) | 0 |

## Ysgol Gynradd Willowtown

Stryd Brynheulog, Glynebwy, NP23 6NJ
**Ffôn:** 01495 355400 | **E-bost:** Willowtown.primary@blaenau-gwent.gov.uk
**Pennaeth:** Melanie Evans

| | | | |
|---|---|---|---|
| Nifer derbyn – dosbarth meithrin | 60 | Nifer y ceisiadau ar amser a dderbyniwyd ar gyfer 2024/2025 (dosbarth derbyn) | 48 |
| Nifer derbyn – dosbarth derbyn | 60 | Nifer y ceisiadau ar amser a wrthodwyd ar gyfer 2024/2025 (dosbarth derbyn) | 0 |
| Capasiti'r Ysgol | 420 | Nifer yr apeliadau llwyddiannus ar amser ar gyfer 2024/2025 (dosbarth derbyn) | 0 |

## Ysgol Gynradd Ystruth

Dwyrain Pentwyn, Blaenau, NP13 3XG
**Ffôn:** 01495 290955 | **E-bost:** Ystruth.primary@blaenau-gwent.gov.uk
**Pennaeth:** Melanie Miller

| | | | |
|---|---|---|---|
| Nifer derbyn – dosbarth meithrin | 37 | Nifer y ceisiadau ar amser a dderbyniwyd ar gyfer 2024/2025 (dosbarth derbyn) | 32 |
| Nifer derbyn – dosbarth derbyn | 42 | Nifer y ceisiadau ar amser a wrthodwyd ar gyfer 2024/2025 (dosbarth derbyn) | 0 |
| Capasiti'r Ysgol | 294 | Nifer yr apeliadau llwyddiannus ar amser ar gyfer 2024/2025 (dosbarth derbyn) | 0 |

## Tredegar Comprehensive School

Lôn Stabl, Tredegar, NP22 4BH
**Ffôn:** 01495 713000 | **E-bost:** Tredegar.school@blaenau-gwent.gov.uk
**Pennaeth:** Charlotte Leaves

| | | | |
|---|---|---|---|
| Nifer derbyn | 152 | Nifer y ceisiadau ar amser a dderbyniwyd ar gyfer 2024/2025 (dosbarth derbyn) | 144 |
| Capasiti'r Ysgol | 767 | Nifer y ceisiadau ar amser a wrthodwyd ar gyfer 2024/2025 (dosbarth derbyn) | 0 |
| | | Nifer yr apeliadau llwyddiannus ar amser ar gyfer 2024/2025 (dosbarth derbyn) | 0 |

# Ysgolion Canol Cymunedol

**Nid oes angen i ddisgyblion ym Mlwyddyn 6 wneud cais am le yn y cyfnod uwchradd**

**Cymuned Ddysgu Ebwy Fawr, Cyfnod Cynradd**
Lôn Strand Annealing, Glynebwy, NP23 6AN
**Ffôn:** 01495 357755 | **E-bost:** cllewellyn@ebbwfawr.co.uk
**Pennaeth 3–16:** Melanie Thomas | **Pennaeth Cynradd:** Carys Llewellyn

| | | | |
|---|---|---|---|
| Nifer derbyn – dosbarth meithrin | 47 | Nifer y ceisiadau ar amser a dderbyniwyd ar gyfer 2024/2025 (dosbarth derbyn) | 30 |
| Nifer derbyn – dosbarth derbyn | 38 | Nifer y ceisiadau ar amser a wrthodwyd ar gyfer 2024/2025 (dosbarth derbyn) | 0 |
| Capasiti'r Ysgol | 269 | Nifer yr apeliadau llwyddiannus ar amser ar gyfer 2024/2025 (dosbarth derbyn) | 0 |

**Cymuned Ddysgu Ebwy Fawr, Cyfnod Uwchradd**
Rhodfa Calch, Glynebwy, NP23 6GL
**Ffôn:** 01495 354690 | **E-bost:** mthomas@ebbwfawr.co.uk
**Pennaeth:** Melanie Thomas

| | | | |
|---|---|---|---|
| Nifer Derbyn | 207 | Nifer y ceisiadau ar amser a dderbyniwyd ar gyfer 2024/2025 (dosbarth derbyn) | 221 |
| Capasiti'r Ysgol | 1191 | Nifer y ceisiadau ar amser a wrthodwyd ar gyfer 2024/2025 (dosbarth derbyn) | 23 |
| | | Nifer yr apeliadau llwyddiannus ar amser ar gyfer 2024/2025 (dosbarth derbyn) | 0 |

**Abertillery Learning Community, Secondary Campus,** Alma Street, Abertillery, NP13 1YL
**Principal:** Tracey Jarvis | **Vice Principal:** Kate Olsen
**Head of Secondary Campus:** Rowan Wetherill
**Tel:** 01495 355911 | **E-mail:** info@abertillery3-16.co.uk

| | | | |
|---|---|---|---|
| Nifer Derbyn | 154 | Nifer y ceisiadau ar amser a dderbyniwyd ar gyfer 2024/2025 (dosbarth derbyn) | 128 |
| Capasiti'r Ysgol | 750 | Nifer y ceisiadau ar amser a wrthodwyd ar gyfer 2024/2025 (dosbarth derbyn) | 0 |
| | | Nifer yr apeliadau llwyddiannus ar amser ar gyfer 2024/2025 (dosbarth derbyn) | 0 |

**Abertillery Learning Community, Primary Campuses**
**Principal:** Tracey Jarvis | **Vice Principal:** Kate Olsen

| | | | |
|---|---|---|---|
| Nifer derbyn – dosbarth meithrin | 141 | Nifer y ceisiadau ar amser a dderbyniwyd ar gyfer 2024/2025 (dosbarth derbyn) | 67 |
| Nifer derbyn – dosbarth derbyn | 140 | Nifer y ceisiadau ar amser a wrthodwyd ar gyfer 2024/2025 (dosbarth derbyn) | 0 |
| Capasiti'r Ysgol | 980 | Nifer yr apeliadau llwyddiannus ar amser ar gyfer 2024/2025 (dosbarth derbyn) | 0 |

**Campws Stryd Tyleri**
Stryd Tyleri, Abertyleri, NP13 1EH
**Pennaeth y Campws:** Marie Lewis
**Ffôn:** 01495 355911
**E-bost:** info@abertillery3-16.co.uk

**Campws Heol Roseheyworth**
Heol Roseheyworth, Abertyleri, NP13 1SR
**Pennaeth y Campws:** Louisa Tudge
**Ffôn:** 01495 355911
**E-bost:** info@roseheyworthrdcampus.co.uk

**Campws Six Bells**
Heol Six Bells, Six Bells, Abertyleri, NP13 2NJ
**Pennaeth y Campws:** Alison Lyndon-Jones
**Ffôn:** 01495 355911
**E-bost:** info@sixbellscampus.co.uk



## Darpariaeth cyfrwng Cymraeg

Mae gan Flaenau Gwent un ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg 3–11 gyda dau gampws: Ysgol Gymraeg Bro Helyg ym Mlaenau ac egin-ddarpariaeth newydd, Ysgol Gymraeg Tredegar, yn Ffordd y Siartwyr, Sirhywi, Tredegar (a fydd ar hyn o bryd ar gyfer disgyblion meithrin, derbyn a Blwyddyn 1).
Lleolir Ysgol Gymraeg Bro Helyg ar Ystad Ddiwydiannol y Rising Sun, Blaenau, Blaenau Gwent, NP13 1YL.
Lleolir Ysgol Gymraeg Tredegar ar Ffordd y Siartwyr, Sirhywi, Tredegar, am y flwyddyn academaidd 2024/25. Fodd bynnag, lleolir yr ysgol ar hyn o bryd mewn lleoliad dros dro yn Nhy Bedwellte, Stryd Morgan, Tredegar.

*Dan 8 oed – os ydych yn byw mwy na 1.5 milltir o'r ysgol
8 oed a throsodd – os ydych yn byw mwy na 2 filltir o'r ysgol

Darperir cludiant am ddim rhwng y cartref a'r ysgol hefyd i ddisgyblion meithrin, yn unol â Chynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2022–2032 Cyngor Blaenau Gwent. I gael rhagor o wybodaeth am Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2022–2032 Blaenau Gwent, cyfeiriwch at y wefan ganlynol: Ymgynghoriad Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2022–32 | CBS Blaenau Gwent (blaenau-gwent.gov.uk)

Mae disgyblion sy'n mynychu ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg fel arfer yn trosglwyddo i ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg. Ar hyn o bryd, darperir ar gyfer disgyblion Blaenau Gwent sy'n dymuno parhau i gael eu haddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg yn yr ysgol uwchradd yn Ysgol Gyfun Gwynllyw, sydd ym Mhont-y-pwl.

Bydd disgyblion 11–16 oed sy'n byw mwy na dwy filltir o'r ysgol yn gymwys i gael cludiant am ddim rhwng y cartref a'r ysgol.

### Defnydd o'r Gymraeg mewn ysgolion cynradd

Mewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg, addysgir holl bynciau'r Cwricwlwm Cenedlaethol, ac eithrio Saesneg, drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mewn ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg, mae Cymraeg ail iaith yn ofyniad statudol yn y cyfnod sylfaen a Chyfnod Allweddol 2.

### Defnydd o'r Gymraeg mewn ysgolion uwchradd

Mewn ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg, addysgir holl bynciau'r Cwricwlwm Cenedlaethol, ac eithrio Saesneg, drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mewn ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg, mae Cymraeg ail iaith yn ofyniad statudol ar gyfer pob disgybl yng Nghyfnod Allweddol 3 a Chyfnod Allweddol 4.

Yn unol â Deddf Diwygio Addysg 1988, mae'r Gymraeg yn bwnc craidd ym mhob ysgol cyfrwng Cymraeg.

Blaenau Gwent sy'n gosod ac yn gweithredu'r trefniadau derbyn ar gyfer Ysgol Gymraeg Bro Helyg (ysgol cyfrwng Cymraeg sy'n cynnig addysg drwy gyfrwng y Gymraeg). Ceir manylion y trefniadau derbyn ar dudalennau 24–36.

**Ysgol Gymraeg Tredegar**
**Lleoliad dros dro:** Ty Bedwellte, Stryd Morgan, Tredegar
Adeilad newydd ar Ffordd y Siartwyr, Sirhywi, Tredegar
Yn symud o Dy Bedwellte i adeilad newydd ar gyfer blwyddyn academaidd 2025

| | | | |
|---|---|---|---|
| Nifer derbyn – dosbarth meithrin | 60 | Nifer y ceisiadau ar amser a dderbyniwyd ar gyfer 2024/2025 (dosbarth derbyn) | 4 |
| Nifer derbyn – dosbarth derbyn | 30 | Nifer y ceisiadau ar amser a wrthodwyd ar gyfer 2024/2025 (dosbarth derbyn) | 0 |
| Capasiti'r Ysgol | 210 | Nifer yr apeliadau llwyddiannus ar amser ar gyfer 2024/2025 (dosbarth derbyn) | 0 |

Bydd yr ysgol yn cynnig darpariaeth feithrin amser llawn ar gyfer 2025.

**Ysgol Gymraeg Bro Helyg**
Ystad Ddiwydiannol y Rising Sun, Blaenau, NP13 1YL
**Ffôn:** 01495 355990 | **E-bost:** ann.bellis@blaenau-gwent.gov.uk
**Pennaeth:** Ann Toghill

| | | | |
|---|---|---|---|
| Nifer derbyn – dosbarth meithrin | 60 | Nifer y ceisiadau ar amser a dderbyniwyd ar gyfer 2024/2025 (dosbarth derbyn) | 27 |
| Nifer derbyn – dosbarth derbyn | 30 | Nifer y ceisiadau ar amser a wrthodwyd ar gyfer 2024/2025 (dosbarth derbyn) | 0 |
| Capasiti'r Ysgol | 215 | Nifer yr apeliadau llwyddiannus ar amser ar gyfer 2024/2025 (dosbarth derbyn) | 0 |

Bydd yr ysgol yn cynnig darpariaeth feithrin amser llawn ar gyfer 2025.

Yr ysgol ddalgylch ddynodedig ar gyfer darpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion Blaenau Gwent yw:

**Ysgol Gymraeg Gwynllyw**
Heol y Ffoledd, Trefddyn, Pont-y-pwl, Torfaen, NP4 8JD
**Ffôn:** 01495 750405 | **Gwe:** https://ysgol-gymraeg-gwynllyw.weebly.com/
**E-bost:** yggswyddfa@gwynllyw.schoolsedu.org.uk | **Pennaeth dros dro:** Helen Rogers

**Mae'r ysgolion canlynol ar dudalennau 14–18 yn gweinyddu eu trefniadau derbyn eu hunain, felly dylid cyflwyno ceisiadau am leoedd yn uniongyrchol i'r ysgol.**

# Ysgol Sefydledig

Ysgol uwchradd yw hon lle mae'r corff llywodraethu yn cyflogi'r staff ac yn gosod y meini prawf derbyn ar gyfer yr ysgol.

**Ysgol Sefydledig Bryn-mawr**
Heol Ganolraddol, Bryn-mawr, NP23 4XT
**Ffôn:** 01495 310527 | **E-bost:** brynmawr.school@blaenau-gwent.gov.uk
**Pennaeth:** Gerry McNamara

| | | | |
|---|---|---|---|
| Nifer Derbyn | 151 | Capasiti'r Ysgol | 755 |

## Meini prawf goralw

Bydd y plant hynny y mae eu rhieni wedi mynegi dewis yn cael cynnig lleoedd yn gyntaf. Pan fydd y plant hyn wedi'u nodi, bydd y lleoedd yn cael eu dyrannu yn unol â'r meini prawf canlynol, a restrir yn nhrefn blaenoriaeth, hyd at y nifer derbyn ar gyfer y grwp blwyddyn penodol hwnnw.

1. Plant sy'n derbyn gofal a phlant a oedd yn derbyn gofal yn flaenorol (plant dan ofal yr awdurdod lleol).
2. Plant gyda brodyr a chwiorydd yn byw yn yr un cartref ac sy'n mynychu Ysgol Sefydledig Bryn-mawr ar y dyddiad y gosodir y disgybl ar y gofrestr (mae brodyr a chwiorydd yn cynnwys hanner brodyr/chwiorydd a brodyr a chwiorydd wedi'u maethu neu wedi'u mabwysiadu).
3. Plant ar gofrestr un o'n hysgolion cynradd perthynol:
   - Ysgol Gynradd Blaen-y-cwm
   - Ysgol Gynradd Coed-y-garn
   - Ysgol yr Eglwys yng Nghymru y Santes Fair
   - Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair
   - Ysgol Gynradd Ystruth
4. Plant sydd ag angen meddygol neu gymdeithasol eithriadol am le. Bydd ceisiadau o dan y categori hwn ond yn cael eu hystyried os ydynt yn cael eu cefnogi gan adroddiad meddyg ymgynghorol. Rhaid i'r wybodaeth nodi'r mantais feddygol/gymdeithasol i'r plentyn o fynychu Ysgol Sefydledig Bryn-mawr.
5. Ar ôl cymryd y categorïau uchod i ystyriaeth, bydd blaenoriaeth yn seiliedig ar agosrwydd at yr ysgol, wedi'i fesur o ddrws ffrynt cartref y disgybl i glwyd yr ysgol.

# Ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir a'u meini prawf derbyn

Mae ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir yn gweithredu o dan sefydliadau (ymddiriedolaethau fel arfer, sef byrddau esgobaethol yr eglwys yn aml). Mae'r rhan fwyaf wedi'u dynodi â chymeriad crefyddol. Mae llywodraethwyr yr ysgol yn gosod ac yn cymhwyso'r trefniadau derbyn. Mae'r trefniadau derbyn wedi'u nodi o dan y cofnod ar gyfer pob ysgol.

**Ysgol Gynradd Gatholig yr Holl Saint**
Heol-yr-ysgol, Glynebwy, NP23 6QP
**Ffôn:** 01495 303631 | **E-bost:** allsaints.primary@blaenau-gwent.gov.uk
**Pennaeth:** Joseph Price

| | | | |
|---|---|---|---|
| Nifer derbyn – dosbarth meithrin | 30 | Capasiti'r Ysgol | 200 |
| Nifer derbyn – dosbarth derbyn | 28 | | |

## Meini prawf goralw

Pan fydd nifer yr ymgeiswyr am le yn fwy na nifer y lleoedd sydd ar gael, bydd lleoedd yn cael eu dyfarnu i ymgeiswyr yn y categorïau isod yn y drefn flaenoriaeth ganlynol:

- Plant sy'n derbyn gofal neu blant a oedd yn arfer derbyn gofal sy'n blant Catholig wedi'u bedyddio
- Plant Catholig wedi'u bedyddio sy'n mynychu Ysgol Gynradd Gatholig yr Holl Saint ar adeg gwneud cais
- Plant Catholig wedi'u bedyddio sy'n byw ym mhlwyf Glynebwy ar adeg y cais

## Bydd angen cadarnhad bod bedyddio wedi digwydd ym mhob un o'r categorïau uchod.

- Plant sy'n derbyn gofal neu blant a oedd yn derbyn gofal yn flaenorol
- Plant sy'n mynychu ysgol gynradd Gatholig ar adeg y cais
- Plant eraill y mae eu rhieni/gwarcheidwaid yn ceisio addysg Gristnogol benodol iddynt

**Ysgol Gynradd Gatholig Sant Joseff**
Pantygerdinen, Tredegar, NP22 3RU
**Ffôn:** 01495 722899 | **E-bost:** stjosephs.primary@blaenau-gwent.gov.uk
**Pennaeth:** John McMorrow

| | | | |
|---|---|---|---|
| Nifer derbyn – dosbarth meithrin | 41 | Capasiti'r Ysgol | 107 |
| Nifer derbyn – dosbarth derbyn | 15 | | |

Bydd yr ysgol yn cynnig darpariaeth feithrin amser llawn ar gyfer 2025.

## Meini prawf goralw

Pan fydd nifer yr ymgeiswyr am le yn fwy na nifer y lleoedd sydd ar gael, bydd lleoedd yn cael eu dyfarnu i ymgeiswyr yn y categorïau isod yn y drefn flaenoriaeth ganlynol:

- Plant Catholig a oedd yn derbyn gofal yn flaenorol gan yr awdurdod lleol neu sy'n derbyn gofal ganddo ar hyn o bryd.
- Plant sy'n derbyn gofal o ffydd arall neu ddim ffydd, a oedd yn derbyn gofal yn flaenorol gan yr awdurdod lleol neu sy'n derbyn gofal ganddo ar hyn o bryd
- Plant Catholig wedi'u bedyddio y mae eu teuluoedd yn byw yn un neu fwy o blwyfi'r Ymddwyn Difrycheulyd, Tredegar a Sant Ioan, a Rhymni
- Plant Catholig wedi'u bedyddio sy'n byw y tu allan i'r dalgylch
- Plant heb eu bedyddio â rhieni Catholig sy'n byw yn nalgylch yr ysgol
- Plant â rhieni Catholig nad ydynt wedi'u bedyddio sy'n byw y tu allan i ddalgylch yr ysgol
- Brodyr a chwiorydd (e.e. llawn, hanner neu lysfrawd/llyschwaer, wedi'u mabwysiadu neu wedi'u maethu) plant nad ydynt yn Gatholigion sydd eisoes yn ddisgyblion yn yr ysgol
- Bydd y llywodraethwyr yn ystyried ceisiadau ar gyfer:
    a. Plant nad ydynt yn Gatholigion y mae eu rhieni yn ceisio addysg Gristnogol i'w plant
    b. Plant o enwadau Cristnogol eraill
    c. Plant o ffydd arall y byd
    d. Plant nad ydynt yn Gatholigion am resymau cymdeithasol
    e. Plant sydd ag angen meddygol neu gymdeithasol eithriadol
    f. Plant o dras ethnig neu leiafrifol

**Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru y Santes Fair**
Heol Ganolraddol, Bryn-mawr, NP23 4SE
**Ffôn:** 01495 310525 | **E-bost:** stmarysciw.primary@blaenau-gwent.gov.uk
**Pennaeth:** Catherine Knowlson

| | | | |
|---|---|---|---|
| Nifer derbyn – dosbarth meithrin | 30 | Capasiti'r Ysgol | 210 |
| Nifer derbyn – dosbarth derbyn | 30 | | |

## Meini prawf goralw

Mae'r llywodraethwyr wedi cytuno, os bydd nifer y ceisiadau'n fwy na nifer y lleoedd sydd ar gael, y bydd y meini prawf canlynol yn cael eu defnyddio, yn y drefn a nodir isod, i benderfynu pa ddisgyblion i'w derbyn.

1. Plant sy'n derbyn gofal neu blant a oedd yn derbyn gofal yn flaenorol
2. Disgybl gyda brawd neu chwaer a fydd yn parhau i fod yn yr ysgol yn y flwyddyn academaidd nesaf, h.y. nid ym Mlwyddyn 6
3. Disgybl y mae ei gyfeiriad cartref o fewn ffiniau plwyf eglwysig Santes Fair y Forwyn ac sy'n mynychu eglwys sy'n rhan o'r Eglwys yng Nghymru
4. Disgybl y mae ei gyfeiriad cartref o fewn ffiniau plwyf eglwysig Eglwys y Forwyn Fair
5. Disgybl sy'n mynychu eglwys yr Eglwys yng Nghymru a hon yw'r ysgol wirfoddol a gynorthwyir sy'n agosaf ato
6. Disgybl sydd wedi'i fedyddio yn un o eglwysi'r Eglwys yng Nghymru (dylid anfon copi o'r dystysgrif gyda'r cais)
7. Disgybl y mae ei rieni wedi mynegi awydd am addysg ysgol yr Eglwys yng Nghymru

Sylwch, bydd unrhyw blentyn y mae'r ysgol wedi'i henwi ar ei gyfer mewn datganiad o anghenion addysgol arbennig yn cael ei dderbyn cyn cymhwyso'r meini prawf goralw.

---

### Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair

Heol Gatholig, Bryn-mawr, NP23 4EF
**Ffôn:** 01495 310596 | **E-bost:** stmarysrc.primary@blaenau-gwent.gov.uk
**Pennaeth dros dro:** Martin Buckley

| | | | |
|---|---|---|---|
| Nifer derbyn – dosbarth meithrin | 53 | Capasiti'r Ysgol | 210 |
| Nifer derbyn – dosbarth derbyn | 30 | | |

## Meini prawf goralw

Bydd y llywodraethwyr yn rhoi blaenoriaeth derbyn fel a ganlyn:

1. Plant Catholig a oedd yn derbyn gofal yn flaenorol gan yr awdurdod lleol neu sy'n derbyn gofal ganddo ar hyn o bryd
2. Plant sy'n derbyn gofal o ffydd arall neu ddim ffydd a oedd yn derbyn gofal yn flaenorol gan yr awdurdod lleol neu sy'n derbyn gofal ganddo ar hyn o bryd

3. Plant Catholig wedi'u bedyddio y mae eu teuluoedd yn byw yn y plwyf
4. Plant Catholig wedi'u bedyddio sy'n byw y tu allan i'r dalgylch
5. Plant heb eu bedyddio â rhieni Catholig sy'n byw yn nalgylch yr ysgol
6. Brodyr a chwiorydd (e.e. llawn, hanner neu lysfrawd/llyschwaer, wedi'u mabwysiadu neu wedi'u maethu) plant nad ydynt yn Gatholigion sydd eisoes yn ddisgyblion yn yr ysgol
7. Bydd y llywodraethwyr yn ystyried ceisiadau ar gyfer:
    a. Plant nad ydynt yn Gatholigion y mae eu rhieni yn ceisio addysg Gristnogol i'w plant
    b. Plant o enwadau Cristnogol eraill
    c. Plant o ffydd arall y byd
    d. Plant nad ydynt yn Gatholigion am resymau cymdeithasol
    e. Plant sydd ag angen meddygol neu gymdeithasol eithriadol
    f. Plant o dras ethnig neu leiafrifol

## Ysgol Arbennig

Ysgol ddydd arbennig yw Pen-y-cwm. Mae derbyniadau i'r ysgol hon yn cael eu cydlynu gan dîm cynhwysiant Blaenau Gwent ar sail angen. I gael rhagor o wybodaeth am ddyrannu lleoedd yn yr ysgol hon, cysylltwch ag **ALNEnquiries@blaenau-gwent.gov.uk**

**Ysgol Arbennig Pen-y-cwm**
Lôn Strand Annealing, Glynebwy, Blaenau Gwent, NP23 6AN
**Ffôn:** 01495 357755 | **E-bost:** Penycwm@blaenau-gwent.gov.uk
**Pennaeth:** Deborah Herald



# Cymuned Ddysgu 3–16 Canolfan yr Afon

Mae Cymuned Ddysgu 3–16 Canolfan yr Afon yn ysgol ddydd arbennig. Mae derbyniadau i'r ysgol hon yn cael eu cydlynu gan dîm cynhwysiant Blaenau Gwent ar sail angen. I gael rhagor o wybodaeth am ddyrannu lleoedd yn yr ysgol hon, cysylltwch â'r pennaeth drwy'r manylion a ddarperir isod. Gellir dod o hyd i wybodaeth ychwanegol ar y wefan hefyd.

**Cymuned Ddysgu 3–16 Canolfan yr Afon – Campws Uwchradd**
Pont-y-gof, Glynebwy, Blaenau Gwent, NP23 5AZ
**Cymuned Ddysgu 3–16 Canolfan yr Afon – Campws Cynradd**
Heol y Twyn, Sirhywi, Tredegar, Blaenau Gwent, NP22 4PY
**Cymuned Ddysgu 3–16 Canolfan yr Afon – Ty**
Tir Lles, Glynebwy, Blaenau Gwent, NP23 5AZ
**Ffôn:** 01495 357714 | **E-bost:** rivercentre3-16@blaenau-gwent.gov.uk
**Gwefan:** www.therivercentre.org.uk
**Pennaeth Gweithredol:** Theresa Evans-Rickards | **Pennaeth y Campws Uwchradd:** Hayley Davies
**Pennaeth y Campws Cynradd:** Allison Howells



# Ydych chi eisiau i'ch plentyn fod yn ddwyieithog?

## Ond dydyn ni ddim yn siarad Cymraeg!

Gyda rhieni di-Gymraeg yn y mwyafrif, mae ysgolion yn darparu popeth yn Gymraeg a Saesneg.

## Beth am eu sgiliau Saesneg?

Pan fydd plant yn gadael ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg, maent yn rhugl yn y Gymraeg ac yr un mor rhugl yn y Saesneg â phlant o ysgolion cyfrwng Saesneg.

I gael rhagor o wybodaeth neu i siarad ag aelod o'r tîm derbyn, cyfeiriwch at y manylion cyswllt ar waelod pob tudalen yn y llyfryn hwn.

## Pam addysg cyfrwng Cymraeg?

Mae ansawdd yr addysg yn rhagorol, mae'n hawdd dysgu iaith o oedran cynnar, ac mae plant yn mwynhau eu bywydau yn y Gymraeg a'r Saesneg!

# Chwarae a dysgu yn Gymraeg o enedigaeth ... plant 0–4 oed

**Cymraeg i Blant**
Gweithgareddau am ddim i rieni newydd yn defnyddio'r Saesneg ac yn cyflwyno'r Gymraeg
**@Cymraegforkids** | **Facebook:** Cymraeg i Blant Blaenau Gwent

**Ti a Fi**
Sesiynau rhieni a phlant bach dan ofal Mudiad Meithrin

**Meithrinfa ddydd / gwarchodwr plant**
Gofynnwch i'ch darparwr lleol sut mae'n defnyddio'r Gymraeg mewn gweithgareddau bob dydd.

**Cylch meithrin / Dechrau'n Deg / Cylch Chwarae**
Sesiwn 2–2½ awr. Addas ar gyfer plant o ddwy flwydd oed i oedran ysgol. Mae rhai grwpiau yn darparu lleoedd plant sy'n codi'n 3 oed a gwasanaethau cofleidiol.

**I gael rhagor o wybodaeth am ofal plant ac addysg, ewch i:**
Gofal Plant | CBS Blaenau Gwent **(blaenau-gwent.gov.uk)**
Ysgolion a Dysgu | CBS Blaenau Gwent **(blaenau-gwent.gov.uk)**

## Felly, beth yw manteision bod yn ddwyieithog?

Gallwch chi fyw eich bywyd mewn dwy (neu fwy) o ieithoedd. Wrth fyw yng Nghymru, mae eich bywyd yn cael ei gyfoethogi pan fyddwch chi'n gallu siarad Cymraeg ac, os ydych chi eisiau teithio neu eisoes yn siarad ieithoedd eraill gartref, mae dysgu un arall yn haws!

Mae yna gyfleoedd gwaith a gyrfa gwych, ac mae siarad dwy iaith yn cynnig mwy o gyfleoedd cyflogaeth yn ogystal â sgìl ychwanegol ar eich CV.

Mae siarad â phobl yn eu dewis iaith o fantais. Mae'r meysydd gyrfa hyn yn arbennig yn awyddus i gyflogi siaradwyr Cymraeg – y cyfryngau, technoleg gwybodaeth, iechyd, y sector cyhoeddus, chwaraeon a hamdden, manwerthu a'r sector gofal plant, ac ati.

Mae Blaenau Gwent, ynghyd â phartneriaid allweddol, wedi lansio tudalen we newydd i roi gwybodaeth i gefnogi rhieni i wneud penderfyniadau am y Gymraeg ac i roi gwybod iddynt am fanteision bod yn ddwyieithog:

Bod yn Ddwyieithog | CBS Blaenau Gwent (blaenau-gwent.gov.uk)

### Rhowch hwb i'ch ymennydd ...

Dengys ymchwil ryngwladol fod plant dwyieithog yn tueddu i gyflawni mwy o fewn y cwricwlwm a pherfformio'n well mewn arholiadau. Maent hefyd yn tueddu i weithio'n well dan bwysau.

## Sut mae Cymraeg yn cael ei haddysgu mewn ysgol cyfrwng Cymraeg?

- Pan fydd plant yn dechrau dysgu Cymraeg, byddant yn cael eu trochi yn yr iaith o'r cychwyn, ond mae'r staff yn hyblyg ac yn gallu defnyddio'r Saesneg os oes angen i helpu'r plant.

- Cymraeg yw iaith addysg y cyfnod sylfaen (dosbarth meithrin – Blwyddyn 2) ac yna bydd plant yn cael gwersi Saesneg ac yn defnyddio Saesneg yn eu gwersi ar draws y cwricwlwm.

- Mae hwn yn ddull a gydnabyddir yn rhyngwladol o ddysgu ieithoedd.

## Sut i helpu eich plentyn o'r cychwyn cyntaf?

Hyd yn oed yn ystod beichiogrwydd, gall babanod glywed lleisiau a cherddoriaeth. Felly, os ydych chi'n awyddus i fagu eich plentyn yn ddwyieithog, nawr yw'r amser i ddechrau siarad a chanu yn Gymraeg i'ch babi.

I gael gwybodaeth Llywodraeth Cymru am y Gymraeg i rieni, chwiliwch am **Cymraeg.llyw.cymru**

Am wybodaeth ar ddysgu Cymraeg fel oedolyn, chwiliwch am **dysgucymraeg.cymru**

**Cyw -** Cyw yw ystod S4C o raglenni, apiau, sioeau byw ac ati i blant. Gallwch ddod o hyd i Cyw a'i ffrindiau ar draws ystod o lwyfannau, i gyd am ddim.

**Teledu** – Gwyliwch raglenni Cyw gyda'ch plentyn bob bore ar S4C, gan gynnwys Patrol Pawennau, Bing, Deian a Loli, Peppa a ffefrynnau eraill yn Gymraeg.

Does dim rhaid i blant siarad Cymraeg i fwynhau cartwnau yn Gymraeg! Lawrlwythwch **S4C Clic** neu ewch i **www.s4c.cymru/cyw** i wylio rhaglenni Cyw unrhyw bryd.

## Apiau hwyliog ac addysgiadol i blant bach

Bydd yr apiau defnyddiol hyn yn eich helpu ar hyd y ffordd.

Apiau **Cyw** (chwiliwch am **'Cyw S4C'**) – Mae apiau Cyw wedi'u dylunio i blant bach eu defnyddio ac yn cynnwys Cyw a'i ffrindiau.

Apiau **Magi Ann** (chwiliwch am **'Magi Ann'**) – Cewch hwyl yn dysgu darllen gyda straeon arobryn Magi Ann. Gwelwch a chlywed y straeon yn Saesneg ac yn Gymraeg.

Apiau **Selog** – chwiliwch am **'Selog'.**

**Adnoddau Cymraeg i'w prynu:** www.siopdewinadoti.cymru, www.gwales.com

Mae gan lyfrgelloedd Blaenau Gwent lyfrau plant Cymraeg a dwyieithog ar gyfer plant o bob oed.

## Cyfeiriadur

**Mudiad Meithrin** – Mae Mudiad Meithrin yn cefnogi plant ifanc yng Nghymru i gael mynediad at wasanaethau a phrofiadau blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg.

**Tel:** 01495 750405 | **Web:** www.meithrin.cymru | **Twitter:** @mudiadmeithrin

## Cyfeiriadur (parhad) ...

**Cymraeg i Blant** – Cynllun cenedlaethol sy'n cefnogi rhieni i ddefnyddio'r Gymraeg gyda'u plant trwy ddewis gofal plant ac addysg cyfrwng Cymraeg. Rheolir y cynllun gan Fudiad Meithrin. Ceir grwpiau cymorth lleol rhad ac am ddim i rieni, yn ogystal â thylino babanod, ioga babanod, sesiynau amser stori Cymraeg, a digwyddiadau misol i deuluoedd sy'n gyfle ychwanegol i gymdeithasu trwy gyfrwng y Gymraeg.

**Ffôn:** 01970 639639 | **Facebook:** Cymraeg i Blant Blaenau Gwent | **X:** @CymraegforKids
**Gwefan:** Llyw.Cymru/CymraegiBlant | **Email:** cymraegiblant@meithrin.cymru

**Cymraeg Llywodraeth Cymru** - Gwefan gyda gwybodaeth am ystod o faterion yn ymwneud â'r Gymraeg a phorth i wefannau eraill – darganfyddwr digwyddiadau, ap yr wythnos, cyrsiau Cymraeg i Oedolion a llawer mwy. Dyma gyfle ychwanegol i gymdeithasu trwy gyfrwng y Gymraeg.

**Gwefan:** www.llyw.cymru/cymraeg | **X:** @Cymraeg

**Cymraeg i Oedolion@Coleg Gwent** - Mae gan bobl resymau gwahanol dros fod eisiau dysgu Cymraeg: i gefnogi plant mewn addysg cyfrwng Cymraeg efallai, neu i ehangu cyfleoedd gwaith. Cynhelir amrywiaeth eang o gyrsiau Cymraeg ar draws Gwent, gan gynnig rhywbeth at ddant pawb. Chwiliwch ar-lein neu ffoniwch ni.

**Ffôn:** 01495 333710 | **E-bost:** welsh@coleggwent.ac.uk | **Gwefan:** www.learnwelsh.cymru
**X:** @CymraegGwent

**Yr Urdd** - Mae'r Urdd yn fudiad ieuenctid sy'n cynnig cyfleoedd a digwyddiadau i holl bobl ifanc Cymru (hyd at 25 oed). Mae'n fudiad bywiog sy'n rhan o fywyd plant sy'n mynychu addysg cyfrwng Cymraeg, trwy chwaraeon, cerddoriaeth, yr Eisteddfod, canolfannau preswyl a grwpiau ieuenctid.

**Gwefan:** www.urdd.cymru | **X:** @urdd | **Ffôn:** 01495 752589

**Rhieni dros Addysg Gymraeg (Rhag)** - Mae Rhieni dros Addysg Gymraeg yn bodoli i gefnogi a hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg ledled Cymru ac i sicrhau cyfleoedd cyfartal i'r rhai sy'n dymuno i'w plant gael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

**Gwefan:** www.rhag.net | **X: @RhAG1**

**Menter Iaith Blaenau Gwent, Torfaen a Mynwy** - Mae Menter Iaith Blaenau Gwent, Torfaen a Mynwy yn fenter a ariennir gan Lywodraeth Cymru sy'n datblygu ac yn hyrwyddo cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y cymunedau ar draws y tair sir. Mae'r gweithgareddau hyn yn cynnwys boreau coffi, gigs, diwrnodau hwyl, clybiau ar ôl yr ysgol a chynlluniau chwarae.

**Gwe:** www.mentercasnewydd.cymru | **E-bost:** gwybodaeth@menterbgtm.cymru | **Ffôn: 01495 755861**

# Gwneud cais am le mewn ysgol yn 2025

## Cyn i chi wneud eich cais

| | Beth sydd angen i chi ei wneud | Sut |
|---|---|---|
| 1 | Ymwelwch â'r ysgolion yr ydych yn eu hystyried ar gyfer eich plentyn. | Cysylltwch â'r ysgolion yn uniongyrchol am apwyntiad a/neu i gael manylion digwyddiadau agored. |
| 2 | Darllenwch adroddiadau Estyn yr ysgol. | Gellir gweld y rhain trwy'r cyfeiriad gwe canlynol: **www.estyn.llyw.cymru** |
| 3 | Darllenwch y prosbectws ar gyfer pob ysgol. | Mae'r rhain ar gael yn uniongyrchol gan yr ysgolion.. |
| 4 | Darllenwch y meini prawf goralw ar gyfer pob ysgol. | Rhestrir y meini prawf goralw ar gyfer ysgolion ffydd ac ysgolion sefydledig ym Mlaenau Gwent ar dudalennau 14–18. Mae gan bob ysgol arall ym Mlaenau Gwent yr un meini prawf goralw, sydd i'w gweld ar dudalennau 35–36. |
| 5 | Ystyriwch pa mor debygol yw hi y bydd eich plentyn yn cael cynnig lle yn eich dewis ysgolion. | Edrychwch i weld pa feini prawf goralw y bydd eich plentyn yn cael ei ystyried oddi tanynt. Mae hefyd yn werth nodi'r prosesau apelio ar dudalen 34 yn y llyfryn hwn fel eich bod yn gwybod ac yn deall eich opsiynau pe bai lle i'ch plentyn yn cael ei wrthod. |
| 6 | Edrychwch i weld faint o leoedd sydd gan bob ysgol. Gelwir hyn yn nifer derbyn. Mae'r nifer hwn wedi'i osod i ystyried nifer y disgyblion y gall pob safle ysgol eu cynnwys. | Rhestrir y nifer derbyn ar gyfer pob ysgol ar dudalennau 6–10 y llyfryn hwn. |
| 7 | Ystyriwch sut bydd eich plentyn yn teithio i'r ysgol. | Cyfeiriwch at Bolisi Cludiant rhwng y Cartref a'r Ysgol ac Ôl-16 Blaenau Gwent am ragor o wybodaeth: https://www.blaenau-gwent.gov.uk/cy/preswylwyr/ysgolion-a-dysgu/trafnidiaeth-ysgol/ |

✔ Siaradwch â'ch plentyn am y penderfyniad.

✘ Gadewch i eraill ddylanwadu ar eich penderfyniad – efallai nad yr ysgol gywir ar gyfer plentyn eich ffrind yw'r ysgol gywir i'ch plentyn.

# Cwblhau eich ffurflen gais

Os hoffech i'ch plentyn fynychu ysgol gymunedol a gynhelir gan yr awdurdod lleol ym Mlaenau Gwent, rhaid i chi lenwi ffurflen gais Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent. Mae'r ysgolion hyn i'w gweld ar dudalennau 6–13. I gael rhagor o wybodaeth am sut i wneud cais, neu i wneud cais ar-lein, cyfeiriwch at y wefan ganlynol: https://www.blaenau-gwent.gov.uk/cy/preswylwyr/ysgolion-a-dysgu/derbyniadau-ysgolion/

Ar gyfer ysgolion nas cynhelir gan Flaenau Gwent (gweler tudalennau 14–18), dylech **wneud cais yn uniongyrchol** i'r ysgol i'ch cais gael ei ystyried yn erbyn ei pholisi derbyn. Fodd bynnag, os dymunwch nodi ysgol ail ddewis a gynhelir gan Flaenau Gwent, dylid gwneud hyn trwy gais Blaenau Gwent a'i gyflwyno ar-lein yn https://www.blaenau-gwent.gov.uk/cy/preswylwyr/ysgolion-a-dysgu/derbyniadau-ysgolion/

Rhaid i chi lenwi ffurflen gais sy'n berthnasol i oedran eich plentyn erbyn y dyddiad a nodir ar dudalen 4.

## Gwneud cais

> Gallwch wneud cais am le mewn ysgol ar-lein yn https://www.blaenau-gwent.gov.uk/cy/preswylwyr/ysgolion-a-dysgu/derbyniadau-ysgolion/

> Gellir cael copïau o'r ffurflen gais hefyd gan y tîm derbyn drwy ffonio 01495 355493/355340 neu anfon e-bost at schooladmissions@blaenau-gwent.gov.uk

**Dyddiadau cychwyn y broses ymgeisio:**
Dosbarth meithrin – 7 Medi 2024
Dosbarth derbyn – 6 Ionawr 2025
Uwchradd – 23 Medi 2024

Os yw'ch plentyn yn mynychu ysgol gynradd neu uwchradd mewn awdurdod lleol arall a'ch bod yn dymuno i'ch plentyn **symud** ysgolion yn ystod y flwyddyn academaidd, gellir cael ffurflen drosglwyddo yn ystod y flwyddyn ar-lein yn https://www.blaenau-gwent.gov.uk/cy/preswylwyr/ysgolion-a-dysgu/derbyniadau-ysgolion/ neu drwy'r tîm derbyn drwy ffonio 01495 369502/369524 neu anfon e-bost at schooladmissions@blaenau-gwent.gov.uk. Cyfeiriwch at Adran 4 am ragor o wybodaeth am drosglwyddiadau yn ystod y flwyddyn.

## Cwblhau eich ffurflen gais

Rydym yn cadw'r hawl i gynnal gwiriadau rhesymol i wirio unrhyw wybodaeth a ddarperir ar eich ffurflen gais. Os darperir gwybodaeth ffug, gamarweiniol a/neu dwyllodrus, rydym yn cadw'r hawl i wneud y canlynol:

> tynnu cynnig o le ysgol yn ôl

> os nad oes cynnig wedi'i wneud, prosesu'r cais gyda'r wybodaeth gywir fel cais hwyr

If you suspect fraud please write to the: **Education Transformation and Business Change Service Manager, Blaenau Gwent County Borough Council, Education Directorate, General Offices, Steelworks Road, Ebbw Vale. NP23 6DN**. All cases will be investigated accordingly.

## Manylion eich cais

**Mae angen y manylion canlynol wrth gwblhau cais ar gyfer eich plentyn:**

**Enw a dyddiad geni** – Rhowch enw a dyddiad geni eich plentyn yn union fel y mae'n ymddangos ar ei dystysgrif geni.

**Cyfeiriad** – Rhaid i'r cyfeiriad a roddwch fod yn gyfeiriad parhaol eich plentyn. Ni ddylai hwn fod yn gyfeiriad aelod arall o'r teulu neu oedolyn arall sy'n gofalu am eich plentyn ond nad oes ganddo gyfrifoldeb rhiant dros eich plentyn.

Rhaid i chi ddarparu prawf o'ch cyfeiriad gyda'ch cais. Os nad ydych yn rhoi caniatâd i'r awdurdod lleol wirio'ch cofnod treth gyngor, anfonwch **lungopïau** o'r dogfennau a restrir isod i'r cyfeiriad a nodir ar waelod y dudalen **neu lanlwythwch nhw ar-lein**. Cofiwch roi enw llawn a dyddiad geni eich plentyn ar unrhyw ddogfennau y byddwch yn eu hanfon atom.

**Darparwch lungopi o un o'r canlynol neu lanlwythwch ef ar-lein (i ddangos prawf o gyfeiriad):**

- Eich bil treth gyngor (dyddiedig o fewn blwyddyn);
- Copi o'r llythyr Budd-dal Plant / hysbysiad Credyd Treth Plant diweddaraf, yn enwi'r plentyn y gwneir y cais ar ei gyfer;
- Bil cyfleustodau diweddar

**A llungopi o un o'r canlynol neu lanlwythwch ef ar-lein (i ddangos prawf o ddyddiad geni):**

- Tystysgrif geni eich plentyn;
- Pasbort dilys sy'n dangos dyddiad geni eich plentyn neu ei gerdyn meddygol GIG

Os yw'r rhieni wedi gwahanu, dylai'r cais gael ei wneud gan y rhiant sydd â chyfrifoldeb rhiant a/neu sy'n brif ofalwr y plentyn. Pan fo plentyn yn treulio amser cyfartal gyda phob rhiant, dylid gwneud yr union drefniadau yn glir mewn llythyr gyda chopi o unrhyw orchymyn gwarchodaeth neu breswyliad. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi mai dim ond o un cyfeiriad y gellir prosesu'r cais.

*Pan na fydd rhiant/gofalwr yn darparu'r dystiolaeth berthnasol, bydd y cais yn cael ei drin fel un anghyflawn nes bod yr holl dystiolaeth ategol wedi dod i law.

*Pe bai'r wybodaeth ategol yn dod i law ar ôl y dyddiad cau, bydd hyn yn golygu bod y cais yn hwyr.

## Newid mewn amgylchiadau

Rhaid i chi ddarparu'r cyfeiriad lle mae'ch plentyn yn byw ar y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau ar eich ffurflen gais. Os byddwch yn symud tŷ ar ôl y dyddiad cau, rhowch wybod i ni ar unwaith.

## Gwybodaeth arall am eich plentyn

Os oes gan eich plentyn ddatganiad o anghenion addysgol arbennig sy'n enwi ysgol, neu Gynllun Datblygu Unigol (CDU) a gynhelir gan awdurdod lleol, rhaid derbyn y plentyn i'r ysgol honno cyn gweithredu'r meini prawf goralw. Yn achos plant sy'n derbyn gofal neu blant a oedd yn arfer derbyn gofal, ni fydd y meini prawf goralw yn cael eu cymhwyso ac nid oes angen unrhyw ymgynghori ynghylch addasrwydd yr ysgol, gan fod hyn yn gymwys fel derbyniad awtomatig o dan statws disgybl a eithrir. Cyfeiriwch at Adran 4 am ragor o wybodaeth am drosglwyddiadau yn ystod y flwyddyn.

## Disgybl a eithrir

**Cyfeiriwch at Adran 4 am ragor o wybodaeth am drosglwyddiadau yn ystod y flwyddyn:**

- Plant sydd â Chynllun Datblygu Unigol (CDU)
- Plant y mae eu datganiadau o anghenion addysgol arbennig (AAA) yn nodi y dylent gael eu haddysgu yn yr ysgol dan sylw, ac a dderbyniwyd i'r ysgol y tu allan i gylch derbyn arferol.
- Plant sy'n derbyn gofal gan awdurdodau lleol (plant sy'n derbyn gofal) neu sydd wedi peidio â derbyn gofal (plant a oedd yn derbyn gofal yn flaenorol) o ganlyniad i gael eu mabwysiadu neu gael eu lleoli gyda theulu neu gael gwarcheidwad arbennig, ac sy'n cael eu derbyn i'r ysgol y tu allan i gylch derbyn arferol.
- Plant y gwrthodwyd eu derbyn i ysgol i ddechrau, ond cynigiwyd lle iddynt wedi hynny y tu allan i gylch derbyn arferol ar gyfarwyddyd panel apelio derbyniadau, neu oherwydd bod y sawl sy'n gyfrifol am wneud y penderfyniad gwreiddiol yn cydnabod bod camgymeriad wedi'i wneud wrth weithredu trefniadau derbyn yr ysgol.
- Plant a dderbynnir y tu allan i'r cylch derbyn arferol y cadarnhaodd yr awdurdod lleol cynhaliol na allant gael lle mewn unrhyw ysgol addas arall o fewn pellter rhesymol i'w cartref oherwydd eu bod wedi symud i'r ardal y tu allan i gylch derbyn arferol, neu eu bod yn dymuno cael addysg grefyddol neu addysg Gymraeg, a'r ysgol dan sylw yw'r unig ysgol addas o fewn pellter rhesymol.
- Plant a dderbyniwyd i'r ysgol y tu allan i'r cylch derbyn arferol y mae'r ysgol wedi trefnu ei dosbarthiadau ar ei ôl, ac ar ôl diwrnod cyntaf y flwyddyn ysgol, y byddai ei effaith yn golygu y byddai'n rhaid i'r ysgol gymryd mesur perthnasol pe na bai plant o'r fath yn ddisgyblion a eithrir.
- Plant personél y lluoedd arfog sy'n cael eu derbyn y tu allan i'r cylch derbyn arferol.
- Plant y mae eu gefell neu frawd neu chwaer arall o enedigaeth luosog yn cael eu derbyn fel disgyblion heb eu heithrio, fel y disgybl(ion) olaf y dyrannwyd lle iddynt cyn cyrraedd y nifer derbyn.
- Plant sy'n ddisgyblion cofrestredig mewn ysgolion arbennig, ond sy'n derbyn rhan o'u haddysg mewn ysgol brif ffrwd.
- Plant ag ADY sydd fel arfer yn cael eu haddysgu mewn uned arbennig mewn ysgol brif ffrwd ond sy'n cael rhan o'u gwersi mewn dosbarth nad yw'n ddosbarth arbennig.

## Manylion rhiant, gwarcheidwad a/neu ofalwr

Pan fo unrhyw blant a/neu bobl ifanc o dan ofal yr awdurdod lleol ar hyn o bryd, rhaid i'r gweithiwr cymdeithasol perthnasol lofnodi'r ffurflen gais a chadarnhau priodoldeb y dewis ysgol.

Rhowch fanylion un rhiant/gwarcheidwad neu ofalwr a'ch manylion cyswllt. Sicrhewch eich bod yn cynnwys rhif ffôn yn ystod y dydd oherwydd efallai y bydd angen i ni gysylltu â chi.

## Rhestru ysgolion ar eich ffurflen

Rydym yn argymell eich bod yn rhestru ysgol ddewis cyntaf, ail ddewis a thrydydd dewis ar eich ffurflen gan y bydd hyn yn cynyddu'r siawns y bydd eich plentyn/plant yn cael cynnig lle mewn ysgol yr hoffech iddynt fynd iddi.

## Rhesymau meddygol eithriadol

Mewn achosion prin iawn, gellir rhoi blaenoriaeth i dderbyn plant mewn ysgol benodol lle mae tystiolaeth i ddangos rhesymau meddygol eithriadol pam mai dim ond un ysgol benodol all ddiwallu eu hanghenion.

Ni ellir ystyried ceisiadau yn y categori hwn oni bai fod adroddiad meddyg ymgynghorol yn cefnogi eich cais. Ym mhob achos, rhaid gwneud y cysylltiad rhwng angen eich plentyn a'r ysgol benodol a rhaid i chi ddangos yn glir pam y gall yr un ysgol benodol hon ddiwallu anghenion eich plentyn mewn ffordd na all unrhyw ysgol arall.

Bydd angen i chi ddarparu tystiolaeth erbyn y dyddiadau cau isod:

Dosbarth meithrin – 18 Hydref 2024
Dosbarth derbyn – 21 Chwefror 2025
Uwchradd – 15 Tachwedd 2024

***Bydd gwybodaeth a ddarperir ar ôl y dyddiad hwn yn cael ei hystyried ar ôl i'r dyddiad cynnig perthnasol fynd heibio.**

Fel y crybwyllwyd yn flaenorol, os oes gan eich plentyn ddatganiad o anghenion addysgol arbennig (AAA) neu CDU a gynhelir gan awdurdod lleol, mae prosesau derbyn ar wahân yn berthnasol. Cysylltwch â thîm cynhwysiant Blaenau Gwent cyn llenwi'r ffurflen berthnasol ar (01495) 355443 neu drwy anfon e-bost at ALNEnquiries@blaenau-gwent.gov.uk

## Datganiad a llofnod

Pan fyddwch wedi llenwi eich ffurflen, rhaid i'r rhiant / gwarcheidwad cyfreithiol sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn lofnodi i gadarnhau bod yr wybodaeth a ddarparwyd yn gywir.

## Dychwelyd eich ffurflen wedi'i chwblhau

Sicrhewch eich bod yn llenwi eich ffurflen gais ar-lein trwy https://www.blaenau-gwent.gov.uk/cy/preswylwyr/ysgolion-a-dysgu/derbyniadau-ysgolion/

Cyfrifoldeb y rhiant/gwarcheidwad neu'r gofalwr yw sicrhau bod yr awdurdod lleol yn derbyn eich cais wedi'i gwblhau yn ddiogel ac ar amser. Os ydych yn postio'ch cais ac yn darparu tystiolaeth, fe'ch cynghorir i anfon y ffurflen **trwy ddosbarthiad cofnodedig**.

## Ceisiadau anghyflawn/hwyr

Bydd ceisiadau anghyflawn a dderbynnir ar ôl y dyddiad cau yn cael eu dosbarthu fel rhai hwyr. Bydd y ceisiadau hyn yn cael eu hystyried ar ôl pob cais arall wedi'i gwblhau a dderbyniwyd mewn pryd a byddant yn cael eu prosesu yn unol â'r amserlen a ddangosir ar dudalen 31.

Os byddwch yn cyflwyno cais anghyflawn neu hwyr, mae'n annhebygol y cewch gynnig lle mewn un o'ch dewis ysgolion.

## Newidiadau yn eich dewisiadau/amgylchiadau

Os bydd rhiant/gofalwr yn dymuno newid ei ddewisiadau neu os bydd ei amgylchiadau'n newid, mae angen gwneud hyn yn ysgrifenedig i'r awdurdod lleol.



# Sut byddwn yn prosesu eich cais

Mae pob ysgol rydych chi'n ei rhestru ar eich ffurflen gais yn cael ei hystyried gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent a'i phrosesu yn unol â Pholisi Derbyn Blaenau Gwent ar gyfer Addysg Feithrin a Statudol 2025/26:

https://www.blaenau-gwent.gov.uk/cy/preswylwyr/ysgolion-a-dysgu/

- Bydd pob dewis cyntaf yn cael ei fodloni ac eithrio lle mae nifer y ceisiadau yn fwy na nifer y lleoedd sydd ar gael. Os bydd mwy o geisiadau nag o leoedd ar gael, bydd lleoedd yn cael eu dyrannu ar sail y meini prawf goralw.
- Dim ond pan fydd mwy o geisiadau i ysgol nag sydd o leoedd ar gael y caiff y meini prawf goralw eu cymhwyso. Os yw nifer y ceisiadau yn hafal i neu'n llai na'r nifer derbyn, yna rhaid derbyn pob disgybl.
- Mae llywodraethwyr ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig yn cymhwyso eu meini prawf i bob un o'u hymgeiswyr ac yna caiff yr wybodaeth hon ei rhannu â'r awdurdod lleol.

## Y broses ymgeisio

Mae gan bob ysgol nifer penodol o leoedd y gellir eu cynnig; gelwir hyn yn nifer derbyn a chynigir lleoedd hyd nes y bydd yr ysgol yn llawn. **Mae'r broses ar gyfer dyrannu lleoedd i ddisgyblion fel a ganlyn:**

| | |
|---|---|
| Derbyn cais gyda thystiolaeth ategol | Derbyn y cais heb dystiolaeth ategol |
| Cydnabod y cais | Tystiolaeth o lythyrau atgoffa a galwadau i rieni/gwarcheidwaid neu ofalwyr |
| Cynigir lleoedd hyd at y nifer derbyn ym mhob ysgol yn unol â dewis y rhieni | Trinnir y cais fel un anghyflawn hyd nes y derbynnir y dystiolaeth |

# Pryd byddaf yn gwybod canlyniad fy nghais?

Ni allwn warantu y bydd eich llythyr cynnig yn cael ei dderbyn ar y dyddiad a nodir isod, ond gallwn warantu y caiff y llythyrau eu hanfon ar y dyddiad hwn naill ai drwy'r post dosbarth cyntaf neu drwy e-bost. *Sylwer na fyddwn yn darparu'r wybodaeth hon dros y ffôn neu drwy e-bost.

| Dyddiad | Beth fydd yn digwydd |
|---|---|
| 22 Tachwedd 2024 | Diwrnod cynnig (dosbarth meithrin) |
| 16 Ebrill 2025 | Diwrnod cynnig (dosbarth derbyn) |
| 3 Mawrth 2025 | Diwrnod cynnig (ysgol uwchradd) |

## Hysbysu rhieni/gwarcheidwaid a/neu ofalwyr o ganlyniad y cais

Bydd yr awdurdod lleol yn hysbysu rhieni o ganlyniad eu cais ar y dyddiad cynnig a nodir uchod. Os caiff y cais ei wrthod, bydd rhieni'n derbyn cadarnhad ysgrifenedig o'r canlyniad a byddant hefyd yn cael y ddogfen 'Canllaw Apeliadau i Rieni', a fydd yn manylu ar y weithdrefn apelio. Os bydd ysgol dewis cyntaf wedi'i gwrthod, bydd yr awdurdod lleol yn dyrannu lle yn yr ail neu'r trydydd dewis os nodir un, neu'r ysgol agosaf nesaf â lle os na ellir bodloni'r dewis.

*NI ddylai penaethiaid / cynrychiolwyr ysgolion, a swyddogion eraill ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, roi syniad o ran a yw cais yn debygol o fod yn llwyddiannus ai peidio, gan mai mater i'r awdurdod derbyn yw hwn.

## Rhestr aros

Caiff rhestrau aros eu hadolygu ar yr adeg y daw lle ar gael (os bydd un yn dod ar gael) yn unol â'r meini prawf goralw cyhoeddedig.

Yn dilyn dyrannu lleoedd yn ystod y cylch derbyn arferol, bydd plant yn aros ar y rhestr aros ar gyfer eu dewis ysgol tan 30 Medi ar ddechrau'r flwyddyn academaidd ganlynol, h.y. os rhoddir y plentyn ar y rhestr aros ym mis Tachwedd 2024, bydd yn aros ar y rhestr tan 30 Medi 2025.

Felly, bydd yn ofynnol i rieni wneud cais newydd am le ar ôl y dyddiad hwn. Os daw lleoedd ychwanegol ar gael, cânt eu dyrannu i blant ar y rhestr aros ar sail y meini prawf goralw cyhoeddedig. Nid yw rhestrau aros yn rhoi blaenoriaeth i blant yn seiliedig ar y dyddiad yr ychwanegwyd y cais at y rhestr.

## Gohirio mynd i ysgol

Nid yw'r gyfraith yn ei gwneud yn ofynnol i blentyn ddechrau'r ysgol tan ddechrau'r tymor yn dilyn pen-blwydd y plentyn yn 5 oed, felly mae'n rhaid i'r awdurdod derbyn ddarparu lle mewn ysgol erbyn yr amser hwn. Ni fyddai'r rhiant, fodd bynnag, yn gallu gohirio mynediad y tu hwnt i ddechrau'r tymor ar ôl pen-blwydd y plentyn yn 5 oed. Mae gan rieni yr hawl i wneud y canlynol:

**A** gofyn am ohirio dyddiad derbyn eu plentyn i'r ysgol tan y tymor ar ôl pen-blwydd y plentyn yn 5 oed

**B** gofyn bod eu plentyn yn cymryd y lle yn rhan amser tan y tymor ar ôl pen-blwydd y plentyn yn 5 oed

## Apeliadau derbyn i ysgolion

Os gwrthodir lle i'ch plentyn yn un o'r ysgolion a restrir ar eich ffurflen, gallwch apelio yn erbyn y penderfyniad hwn i banel apeliadau annibynnol. Rhoddir manylion i chi am sut i apelio yn ein llythyr gwrthod.



# Sut i sicrhau bod gennych y cyfle gorau posibl o gael cynnig lle mewn un o'r ysgolion o'ch dewis

Mae'r wybodaeth bwysicaf i'w nodi yn ymwneud â dechrau'r flwyddyn academaidd ganlynol, sef os yw'r plentyn yn cael ei roi ar y rhestr aros ym mis Tachwedd 2024, y bydd yn aros ar y rhestr tan 30 Medi 2025. Ceir rhagor o fanylion derbyn isod:

> Gwybod beth i'w wneud a beth i ymchwilio iddo cyn i chi wneud eich cais **(gweler tudalen 24)**

> Deall sut y gall ceisiadau hwyr effeithio ar leoli eich plentyn **(gweler tudalen 25)**

> Gwybod a deall sut mae'r meini prawf derbyn yn cael eu cymhwyso **(gweler tudalennau 35–36)**

> Cyflwyno'ch ffurflen ar amser gyda'r holl dystiolaeth ofynnol **(gweler tudalen 26)**

> Deall y broses apelio os caiff eich cais ei wrthod **(gweler tudalen 34)**



# Apeliadau Derbyn

***Sylwch nad oes hawl i apelio mewn perthynas â cheisiadau am le mewn dosbarth meithrin gan mai addysg anstatudol yw hon.**

## Beth sy'n digwydd os gwrthodir lle i'ch plentyn?

Yn y mwyafrif o achosion, cynigir lleoedd i blant yn yr ysgol o'u dewis cyntaf. Os na all eich plentyn gael lle yn yr ysgol o'i ddewis cyntaf, bydd angen i chi benderfynu a ydych yn fodlon derbyn lle mewn ysgol wahanol neu a ydych am apelio yn erbyn y penderfyniad. Os dymunwch apelio, bydd panel apeliadau annibynnol yn cael ei ymgynnull i adolygu'r apêl.

## Sut i apelio

Gallwch wneud apêl ffurfiol yn erbyn y penderfyniad, a rhaid i hyn ddod i law o fewn 28 diwrnod calendr o gael gwybod am y penderfyniad i beidio â derbyn eich plentyn i'ch dewis ysgol. Bydd yr apêl yn cael ei chlywed gan banel apeliadau annibynnol, a fydd yn pennu amser a lleoliad ar gyfer y gwrandawiad. Bydd y panel yn rhoi cyfle i rieni wneud eu sylwadau (ar lafar a/neu yn ysgrifenedig). Cynghorir rhieni bod asiantaethau fel SNAP **(www.snapcymru.org)** ar gael i roi cymorth i wneud apeliadau. I gael rhagor o wybodaeth am apeliadau, cyfeiriwch at y dogfennau canlynol:

- https://www.blaenau-gwent.gov.uk/cy/preswylwyr/ysgolion-a-dysgu/derbyniadau-ysgolion/apeliadau-derbyniadau/
- https://www.blaenau-gwent.gov.uk/cy/preswylwyr/ysgolion-a-dysgu/derbyniadau-ysgolion/
- https://www.llyw.cymru/y-cod-apelau-derbyn-i-ysgolion

**Dylai rhieni nodi'r canlynol:**

1. Gallant ddewis peidio â mynychu'r cyfarfod apêl ac, yn lle hynny, ganiatáu i'r apêl gael ei hystyried ar sail datganiad ysgrifenedig
2. Rhoddir o leiaf 14 diwrnod o rybudd ysgrifenedig iddynt (o'r diwrnod postio) o gyfarfod y panel apeliadau
3. Mae croeso iddynt ddod â ffrind gyda nhw neu gael eu cynrychioli gan gyfreithiwr



# Meini prawf goralw ysgolion

Bydd yr awdurdod derbyn yn ystyried pob cais unigol a dderbynnir erbyn y dyddiad cau cyhoeddedig. Os yw nifer y ceisiadau ar gyfer ysgol unigol yn fwy na'r nifer derbyn, bydd y lleoedd yn cael eu dyrannu gan ddefnyddio'r meini prawf canlynol, a restrir yn nhrefn blaenoriaeth.

***Sylwer:** Bydd plant sydd â Chynllun Datblygu Unigol a gynhelir gan awdurdod lleol, neu blant sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig sy'n enwi'r ysgol, yn cael eu derbyn yn unol ag adran 324 o Ddeddf Addysg 1996.

### 1. Plant mewn gofal

Rhoddir blaenoriaeth i blant sy'n derbyn gofal / plant a oedd yn derbyn gofal yn flaenorol (plant dan ofal yr awdurdod lleol) yn dilyn ymgynghoriad ar briodoldeb yr ysgol a enwir.

Ystyr plant mewn gofal yw plant sydd yng ngofal yr awdurdod lleol cyn y dyddiad cau cyhoeddedig.

### 2. Ysgol ddalgylch

Plant sy'n byw yn nalgylch yr ysgol ar neu cyn y dyddiad cau cyhoeddedig.

### 3. Cymdeithasol/meddygol

Plant y mae'r awdurdod yn derbyn sydd ag angen meddygol neu gymdeithasol eithriadol am le mewn un ysgol benodol. Bydd ceisiadau o dan y categori hwn ond yn cael eu hystyried os ydynt yn cael eu cefnogi gan adroddiad gan feddyg ymgynghorol. Rhaid i'r wybodaeth nodi'r fantais feddygol i'r plentyn fynychu'r ysgol ddewisol. Sylwch NAD yw adroddiadau gan feddygon teulu yn cael eu derbyn at y diben hwn.

### 4. Brawd neu chwaer

Bydd plant sydd â brawd neu chwaer yn yr ysgol y mae'r rhiant yn gwneud cais iddi, ar ôl y dyddiad derbyn, yn cael blaenoriaeth uwch na'r rhai nad oes ganddynt frawd neu chwaer. Ond sylwer nad yw cael brawd neu chwaer yn yr ysgol yn gwarantu y bydd unrhyw blant eraill yn y teulu yn cael eu derbyn yno. Lle bo mwy nag un achos o'r fath, rhoddir blaenoriaeth i'r plant hynny sydd agosaf o ran oedran at y brawd neu chwaer sydd eisoes yn mynychu'r ysgol ddewisol ar y dyddiad derbyn. Bydd brodyr a chwiorydd, boed yn hanner, llawn, llys neu faeth, yn cael eu hystyried yn berthnasol os ydynt yn byw yn yr un cartref.

### 5. Pellter

Plant sy'n byw agosaf at yr ysgol a ffafrir, wedi'i fesur yn ôl y llwybr cerdded cydnabyddedig byrraf rhwng drws ffrynt y cartref a giât yr ysgol gan ddefnyddio system mapio digidol.

### Genedigaethau lluosog

Genedigaeth luosog yw beichiogrwydd lle mae mwy nag un babi yn cael eu geni. Os mai dim ond un lle sydd ar gael yn yr ysgol a bod y plentyn nesaf sy'n gymwys am le yn un o frodyr a chwiorydd genedigaeth luosog, bydd yr ysgol yn mynd dros y nifer derbyn cyhoeddedig.

### Torri'r ddadl

Dyma sut y torrir y ddadl ar gyfer yr holl feini prawf: y plant sy'n byw agosaf at yr ysgol wedi'i fesur gan ddefnyddio system mapio digidol. Bydd lleoedd yn cael eu dyrannu ar sail pellter y llwybr cerdded cydnabyddedig byrraf rhwng drws ffrynt y cartref a phrif giât yr ysgol gan ddefnyddio system mapio digidol. Rhoddir y flaenoriaeth uchaf i'r plant sy'n byw agosaf at yr ysgol.

### Lleoedd gohiriedig - cyn oedran ysgol gorfodol - 5 oed

Mae'r Cod Derbyn i Ysgolion yn nodi bod yn rhaid i awdurdodau derbyn ganiatáu i rieni ohirio lle mewn ysgol nes bod y plentyn wedi cyrraedd oedran ysgol gorfodol. Gall rhieni ohirio lle tan amser yn ddiweddarach yn y flwyddyn, neu hyd nes y bydd y plentyn o oedran ysgol gorfodol, A GALLANT ofyn bod eu plentyn yn cymryd y lle yn rhan amser nes bod y plentyn yn cyrraedd oedran ysgol gorfodol.



Mae Brechu yn achub bywydau
Vaccination saves lives

# Ydi eich plentyn chi wedi cael pob brechiad?
# Is your child up to date with their immunisations?



## 2 Mis / Months

- Diphtheria, Tetanus, Pertussis, Polio, Haemophilus Influenzae Type B (Hib) & Hepatitis B (HepB)
- Rotavirus
- Meningococcal (MenB)



## 3 Mis / Months

- Diphtheria, Tetanus, Pertussis, Polio, Haemophilus Influenzae Type B (Hib) & Hepatitis B (HepB)
- Rotavirus
- Pneumococcal



## 4 Mis / Months

- Diphtheria, Tetanus, Pertussis, Polio, Haemophilus Influenzae Type B (Hib) & Hepatitis B (HepB)
- Meningococcal (MenB)



## 12-13 Mis / Months

- Haemophilus Influenzae Type B (Hib) & Meningococcal (MenC)
- Pneumococcal
- Measles, mumps, rubella (MMR)
- Meningococcal (MenB)



## 2-3 Blynedd / Years

- Brechiad y ffliw bob blwyddyn / Flu vaccine every year



## 3-4 Blynedd / Years

- Diphtheria, Tetanus, Pertussis & Polio
- Measles, mumps, rubella (MMR)



## 4-11 Blynedd / Years

- Brechiad y ffliw bob blwyddyn yn yr Ysgol Gynradd / Flu vaccine every year in primary school



## 12-16 Blynedd / Years

- Tetanus, diphtheria & Polio
- Meningococcal (MenACWY)
- Human Papillomavirus (HPV)
- Brechiad y ffliw yn yr ysgol / Flu vaccine in school
- Y frech goch, clwy'r pennau, rwbela (MMR) os heb gael 2 ddos eisoes / Measles, mumps, rubella (MMR) if not had 2 doses already

### Dydi hi byth yn rhy hwyr i ddal i fyny. Siaradwch gyda'ch nyrs neu eich meddyg.

Am wybodaeth bellach ffoniwch GIG 111 Cymru ar **0845 46 47** neu **111** os yw ar gael yn eich ardal, neu ewch i **111.wales.nhs.uk/LiveWell/Vaccinations**

### It's never too late to catch up. Speak to your nurse or doctor.

For further information call NHS 111 Wales on **0845 46 47** or **111** if available in your area, or visit **111.wales.nhs.uk/LiveWell/Vaccinations**

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

© Iechyd Cyhoeddus Cymru, Mawrth 2022, Ferswin 2 / © Public Health Wales, March 2022, Version 2
ISBN 978-1-78986-154-597

# Ysgolion mewn awdurdodau derbyn eraill

Os dymunwch wneud cais i ysgolion y tu allan i Flaenau Gwent, dylech gysylltu â'r awdurdod lleol perthnasol i gael gwybodaeth am yr ysgolion hynny. Cofiwch, os ydych yn breswylydd ym Mlaenau Gwent, rhaid i chi gyflwyno cais i schooladmissions@blaenau-gwent.gov.uk

**Sir Fynwy**
Cyfarwyddiaeth Plant a Phobl Ifanc, Ty Arloesedd, Cyngor Sir Fynwy, Blwch Post 106, Cil-y-coed, NP26 9AN. **Gwefan:** www.Monmouthshire.gov.uk
**Ffôn:** 01633 644508 | **E-bost:** schoolandstudentaccessunit@monmouthshire.gov.uk

**Caerffili**
**Sylwer:** Os yw rhieni'n dymuno gwneud cais i'w plentyn fynychu ysgol yn ardal Caerffili, h.y. Ysgol Gyfun Trecelyn, mae'n ofynnol i chi wneud cais drwy'r ffurflen gais berthnasol gan Gyngor Caerffili neu drwy wneud cais ar-lein drwy wefan Cyngor Caerffili. Rhaid i unrhyw geisiadau o'r fath ddod i law Tîm Derbyn i Ysgolion Caerffili erbyn y dyddiad cau cyhoeddedig perthnasol fel yr amlinellir ym mholisi derbyniadau Cyngor Caerffili.
**Gwefan:** www.caerphilly.gov.uk
**Ffôn:** 01443 864870 | **E-bost:** schooladmissions@caerphilly.gov.uk

**Powys**
Tîm Derbyniadau a Chludiant, Neuadd Sir Powys, Spa Road East, Llandrindod, Powys, LD1 5LG.
**Gwefan:** www.powys.gov.uk
**Ffôn:** 01597 826455 | **E-bost:** admissionsandtransport@powys.gov.uk

**Merthyr Tudful**
Gwasanaethau Disgyblion, Uned 5, Parc Busnes Triongl, Pentre-bach, Merthyr Tudful. CF48 4TQ
**Gwefan:** www.merthyr.gov.uk
**Ffôn:** 01685 724620 | **E-bost:** school.admissions@merthyr.gov.uk

**Torfaen**
Y Tîm Derbyn, Ty Pearle, Pont-y-pwl, NP4 6YB
**Gwefan:** www.torfaen.gov.uk
**Ffôn:** 01495 766915 | **E-bost:** kath.worwood@torfaen.gov.uk

Darperir darpariaeth Gatholig uwchradd ar gyfer disgyblion sy'n byw yn ardaloedd Tredegar a Glynebwy yn:

**Ysgol Uwchradd Gatholig yr Esgob Hedley**
Heol Gwaunfarren, Merthyr Tudful, CF47 9AN
**Ffôn:** 01685 351860 | **Ffacs:** 01685 385292 | **E-bost:** office@bishophedleyhigh.merthyr.sch.uk
**Nifer Derbyn:** 120

Darperir darpariaeth Gatholig uwchradd ar gyfer disgyblion sy'n byw ym Mryn-mawr/ Nant-y-glo ac Abertyleri yn:

**Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Alban**
Y Parc, Pont-y-pwl, Torfaen, NP4 6XG
**Ffôn:** 01495 765800 | **E-bost:** staenquiries@stalbans.schoolsedu.org.uk
**Gwefan:** www.stalbans-pontypool.org.uk

# Derbyniadau yn ystod y flwyddyn

## Disgyblion sy'n gwneud cais am le ysgol yn ystod y flwyddyn

Gelwir ceisiadau am leoedd ysgol a dderbynnir ar ôl 1 Medi mewn unrhyw flwyddyn ysgol yn dderbyniadau 'yn ystod y flwyddyn'.

Mae ffurflenni cais yn ystod y flwyddyn ar gyfer pob grwp blwyddyn ym mhob ysgol gynradd ac uwchradd a gynhelir ar gael ar-lein yn **https://www.blaenau-gwent.gov.uk/cy/preswylwyr/ysgolion-a-dysgu/derbyniadau-ysgolion/newid-ysgol/**

Bydd llythyrau dyrannu lle ysgol yn manylu ar y cynnig yn cael eu hanfon at y rhiant/gofalwr gan y tîm trawsnewid addysg a bydd ysgolion yn cael gwybod am y cynigion hyn ar yr un pryd.

## Ceisiadau i drosglwyddo rhwng ysgolion

Nid yw'r awdurdod derbyn yn annog trosglwyddo o un ysgol leol i'r llall. Mae ymchwil yn dangos y gall y symudiadau hyn niweidio cyflawniad a llwyddiant addysgol plant oni bai fod amgylchiadau eithriadol a bod y trosglwyddo er lles gorau'r plentyn. Anogir rhieni i drafod eu rhesymau dros ddymuno newid ysgol gyda phennaeth ysgol bresennol y plentyn.

Bydd ceisiadau trosglwyddo yn cael eu prosesu o fewn 15 diwrnod o dderbyn cais **wedi'i gwblhau** a bydd trosglwyddiadau'n cael eu dyrannu yn seiliedig ar argaeledd lleoedd.

## Symudiadau wedi'u rheoli

Mae gan Flaenau Gwent brotocol ar waith sy'n sicrhau bod pobl ifanc agored i niwed sy'n gwneud cais am le uwchradd y tu allan i'r cylch derbyn arferol, a/neu nad ydynt ar gofrestr ysgol, yn cael cynnig lle yn gyflym. Gwneir pob ymdrech i rannu derbyniadau symudiadau wedi'u rheoli yn gyson ar draws pob ysgol uwchradd. Gan mai dim ond pedwar cyfleuster uwchradd sydd yn yr awdurdod lleol, lle bo'n briodol bydd y swyddog derbyn yn ystyried yr amgylchiadau unigol ac, felly, yn torri'r nifer derbyn.





# Diffiniadau a gwybodaeth arall

## Presenoldeb – pob dydd yn cyfrif

Cynghorir rhieni i beidio â mynd â'u plentyn/plant ar wyliau yn ystod y tymor. Mae dyddiadau tymhorau 2025/2026 i'w gweld yn **https://www.blaenau-gwent.gov.uk/cy/preswylwyr/ysgolion-a-dysgu/dyddiadau-tymor/**

Mae'r gyfraith yn nodi nad oes gan rieni'r hawl i fynd â'u plentyn/plant allan o'r ysgol am wyliau yn ystod y tymor heb gytundeb y pennaeth, sydd â'r disgresiwn i gytuno ar hyd at ddeg diwrnod o absenoldeb.

Dylai rhieni wneud unrhyw geisiadau am absenoldeb yn ysgrifenedig cyn cymryd y gwyliau.

Mae 190 o ddiwrnodau ysgol statudol mewn un flwyddyn. Mae 175 diwrnod (penwythnos a gwyliau ysgol) ar gael i'w defnyddio ar gyfer gwyliau na fyddent yn cael effaith negyddol ar addysg plentyn.

## Canolfan Integredig i Blant

Mae Canolfan Integredig i Blant Blaenau Gwent yn cynnig gwybodaeth, cyngor a chymorth am wasanaethau blynyddoedd cynnar. Mae'r rhain yn cynnwys y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd, ymwelwyr iechyd, Dechrau'n Deg a Theuluoedd yn Gyntaf.

**Ffôn:** 01495 369610 **Gwefan:** www.blaenau-gwent.gov.uk

## Grantiau dillad

Gellir cael gwybodaeth am grantiau dillad oddi wrth Is-adran Budd-daliadau'r Adran Adnoddau.

**Ffôn:** 01495 353398 **Gwefan:** www.blaenau-gwent.gov.uk

## Cwynion

Mae rheoliadau diweddar a gyflwynwyd o dan Ddeddf Addysg 2002 yn ei gwneud yn ofynnol i gorff llywodraethu pob ysgol a gynhelir yng Nghymru, gan gynnwys ysgolion meithrin, sefydlu gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â chwynion gan rieni, disgyblion, aelodau o staff, llywodraethwyr, aelodau o'r gymuned leol ac eraill.

O ganlyniad, cyn bo hir bydd modd cael manylion llawn trefn gwyno ysgol gan yr ysgolion a restrir ar dudalennau 6–19. Bydd cwynion nad ydynt yn ymwneud ag ysgolion yn parhau i gael eu gwneud i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg.

### Gwasanaeth Lles Addysg

Mae'r Gwasanaeth Lles Addysg yn cyflawni dyletswydd statudol yr awdurdod lleol drwy gefnogi ysgolion i sicrhau bod pob disgybl o oedran ysgol gorfodol yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd ac yn brydlon er mwyn iddynt gyflawni eu potensial addysgol a chymdeithasol priodol yn unol â Deddf Addysg 1996 a Deddf Plant 1989. Mae'r Gwasanaeth Lles Addysg hefyd yn archwilio ac yn cofnodi pob digwyddiad o gyflogaeth plant a pherfformiad plant yn unol â Deddf Plant a Phobl Ifanc 1933 a Rheoliadau Plant (Perfformiadau a Gweithgareddau) (Cymru) 2015.

Yn ogystal â'r dyletswyddau statudol a nodir uchod, bydd y Gwasanaeth Lles Addysg hefyd yn: darparu cysylltiadau rhwng ysgolion, rhieni, pobl ifanc ac asiantaethau eraill yn ôl yr angen; cynghori ysgolion a rhieni ar sut i fynd i'r afael â materion lles megis troseddau ieuenctid, bwlio, cam-drin sylweddau, ac ati; a hysbysu cynadleddau achos amddiffyn plant o wybodaeth berthnasol am blant a theuluoedd.

Ym Mlaenau Gwent, mae gan bob ysgol Swyddog Lles Addysg dynodedig i'w chynghori a'i chefnogi. Mae gweithredu'r Gwasanaeth Lles Addysg yn y modd hwn yn galluogi ysgolion, disgyblion a rhieni i feithrin perthynas broffesiynol gyda'r Swyddog Lles Addysg. Gall ysgolion ofyn i Swyddog Lles Addysg ymweld â'r cartref i drafod materion presenoldeb. Gall pobl ifanc hefyd drafod problemau yn gyfrinachol gyda'u Swyddog Lles Addysg, os oes angen.

### Addysg ddewisol yn y cartref

Mae'r gyfraith yn ei gwneud yn ofynnol i rieni sicrhau bod eu plentyn/plant yn cael addysg. Gwneir hyn fel arfer trwy sicrhau eu bod yn mynychu ysgol leol. Fodd bynnag, mae rhieni weithiau'n dewis darparu addysgu ddewisol yn y cartref i'w plentyn/plant. Os bydd rhieni yn penderfynu addysgu yn y cartref, maent yn dod yn gyfrifol am ddarparu a sicrhau bod eu plentyn/plant yn cael addysg addas. Mae'n ofynnol i'r awdurdod lleol fonitro addasrwydd yr addysg a ddarperir ac felly bydd yn cynnal ymweliadau i gael sicrwydd o hyn.

### Plant sydd ar goll o addysg

Mae'r Ddeddf Addysg ac Arolygiadau yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol sefydlu pwy yw'r holl blant nad ydynt wedi'u cofrestru yn yr ysgol neu'n derbyn addysg addas. Mae'r Gwasanaeth Lles Addysg felly'n gweithio'n agos gyda staff derbyniadau ysgolion i sicrhau y rhoddir cyfrif am bob plentyn sy'n hysbys i'r awdurdod lleol.

### Estyn

Mae pob ysgol yn cael ei harolygu gan Estyn. Yn dilyn arolygiadau ffurfiol, mae adroddiadau cryno i rieni ar gael gan yr ysgol, ac mae adroddiadau arolygu llawn ar gael o lyfrgelloedd lleol neu drwy ymweld â gwefan Estyn yn: **Gwefan:** www.estyn.llyw.cymru

### Disgyblion ethnig leiafrifol

Cefnogir Cyfarwyddiaeth Addysg Blaenau Gwent gan Wasanaethau Addysg Amlieithog Gwent i sicrhau bod disgyblion o bob cefndir ethnig leiafrifol yn gallu cael mynediad i addysg a chymryd rhan ynddi. Mae disgyblion o deuluoedd Sipsiwn, Roma neu Deithwyr yn cael eu cefnogi ar draws ysgolion Blaenau Gwent gan y Gwasanaeth Addysg i Deithwyr. Nod y cymorth hwn yw sicrhau bod disgyblion o gefndiroedd Sipsiwn, Roma neu Deithwyr yn ymgysylltu'n gadarnhaol ag addysg a gwneir pob ymdrech i sicrhau bod disgyblion yn cyrraedd eu llawn botensial.

### Prydau ysgol am ddim

Darperir prif bryd ym mhob ysgol. **Mae'r cinio ysgol gynradd am ddim i ddisgyblion o fewn grwpiau'r dosbarth derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2. Ysgol gynradd – £2.50 | Ysgol uwchradd - £2.70**

### Pa ddisgyblion sy'n gallu cael prydau ysgol am ddim?

Mae prydau ysgol am ddim ar gael i ddisgyblion cymwys sy'n mynychu'r ysgol yn llawnamser. Mae hyn yn cynnwys:

- Plant iau sy'n mynychu meithrinfa am ddiwrnodau llawn
- Disgyblion ysgol chweched dosbarth

Mae'n bosibl y bydd eich plentyn yn gallu cael prydau ysgol am ddim os ydych chi'n cael unrhyw un o'r canlynol:

- Cymhorthdal Incwm
- Lwfans Ceisio Gwaith yn Seiliedig ar Incwm
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn Seiliedig ar Incwm
- Cymorth o dan Ran VI o Ddeddf Mewnfudo a Lloches 1999
- Elfen warantedig Credyd Pensiwn
- Credyd Treth Plant (ar yr amod nad oes gennych hawl hefyd i Gredyd Treth Gwaith a bod gennych incwm gros blynyddol o ddim mwy na £16,190)
- Credyd Treth Gwaith 'dilynol' – a delir am bedair wythnos ar ôl i chi beidio â bod yn gymwys ar gyfer Credyd Treth Gwaith
- Credyd Cynhwysol – ar yr amod bod gan eich cartref incwm net blynyddol o ddim mwy na £7,400 (fel yr aseswyd gan enillion o hyd at dri o'ch cyfnodau asesu diweddaraf)

Os yw eich plant yn cael Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn Seiliedig ar Incwm, Cymhorthdal Incwm neu Lwfans Ceisio Gwaith yn Seiliedig ar Incwm yn eu rhinwedd eu hunain, gallent hefyd allu cael prydau ysgol am ddim.

Er mwyn i blant/pobl ifanc fod yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim:

- rhaid i chi, fel rhiant, neu eich plentyn, dderbyn y budd-dal neu daliad cymorth perthnasol
- dylech fod wedi cyflwyno cais am brydau ysgol am ddim i'r awdurdod lleol (neu dylai cais fod wedi'i gyflwyno ar eich rhan)
- dylai'r cais fod wedi'i gymeradwyo gan yr awdurdod lleol, neu dylai'r awdurdod lleol fod wedi gweld dogfennau sy'n awgrymu'n gryf fod eich plentyn yn gymwys

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r Adran Budd-daliadau ar: **Ffôn:** 01495 311556
**E-bost:** benefits@blaenau-gwent.gov.uk

### Grant gwisg ysgol

Mae'r Grant Hanfodion Ysgol (y Grant Datblygu Disgyblion gynt) ar gael i blant a phobl ifanc sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, plant sy'n derbyn gofal, a'r rhai sy'n cael eu dosbarthu fel 'Heb Hawl i Gyllid Cyhoeddus' mewn grwpiau blwyddyn o'r dosbarth derbyn i Flwyddyn 11.

Mae cyllid o £125 ar gael ar gyfer pob dysgwr cymwys ac eithrio'r rhai ym Mlwyddyn 7, a fydd â hawl i £200 (i adlewyrchu'r gost gynyddol o ddechrau ysgol uwchradd).

**Nid** yw dysgwyr sy'n cael prydau ysgol am ddim oherwydd trefniadau amddiffyn trosiannol **yn gymwys ar gyfer y cyllid hwn**. **Nid** yw dysgwyr sy'n cael Prydau Ysgol am Ddim i Holl Blant Ysgolion Cynradd yn unig, ac nad ydynt yn cael prydau ysgol am ddim yn seiliedig ar feini prawf yn ymwneud ag incwm/budd-dal, **yn gymwys ar gyfer y cyllid hwn.**

Dim ond unwaith y plentyn, fesul blwyddyn ysgol, y mae gan deuluoedd hawl i wneud cais.

**Bydd y cynllun ar gyfer blwyddyn academaidd 2023/24 yn dechrau ar 1 Gorffennaf 2023 ac yn dod i ben ar 31 Mai 2024.**

### Sut i wneud cais

Gwnewch gais ar-lein:

- Os yw eich plentyn yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim ac
- Os nad yw eich plentyn eisoes wedi cael grant gwisg ysgol ar gyfer y flwyddyn ysgol gyfredol, sef 2024/25

**Defnyddiwch borwr fel Chrome, Edge neu Safari i gael mynediad at Fy Ngwasanaethau a'r ffurflen isod. Ni fydd yn gweithio yn Internet Explorer.**

**E-bost:** benefits@blaenau-gwent.gov.uk or **Ffôn:** 01495 311556 am ragor o wybodaeth am y grant hwn.

### Ombwdsmon Llywodraeth Leol

Mae'r Ombwdsmon Llywodraeth Leol yn edrych ar gwynion am gynghorau a rhai awdurdodau eraill, gan gynnwys paneli apeliadau derbyniadau addysg. Ei rôl yw ymchwilio i gwynion mewn ffordd deg ac annibynnol – nid yw'n cymryd ochr. Gallwch gysylltu ag ef ar:

**Ffôn:** 0300 790 0203 **Gwefan:** www.ombudsman-wales.org.uk

### Llaeth

Darperir llaeth am ddim i ddisgyblion meithrin, derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 mewn ysgolion sydd wedi dewis cymryd rhan yn y cynllun darparu llaeth am ddim. Mae darparu llaeth, fodd bynnag, yn amodol ar gytundeb y rhieni. Darperir llaeth hefyd i ddisgyblion mewn ysgolion arbennig preswyl ac i ddisgyblion mewn ysgolion eraill y mae arnynt angen llaeth am resymau meddygol.

### Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol (NYAS)

Mae'r Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol (NYAS) yn elusen yn y DU sy'n darparu gwasanaethau hawliau plant a gwasanaethau cymdeithasol-gyfreithiol. Mae'n cynnig gwybodaeth, cyngor, eiriolaeth a chynrychiolaeth gyfreithiol i blant a phobl ifanc hyd at 25 oed. Mae NYAS yn ceisio darparu a datblygu ei wasanaethau trwy gyfranogiad gweithredol pobl ifanc, sy'n ymwneud â phob lefel o'r sefydliad.

**Os ydych yn blentyn neu'n berson ifanc, neu'n ffonio ar ran plentyn neu berson ifanc, ac mae arnioch angen cymorth, gwybodaeth neu gyngor, gallwch gysylltu â'r gwasanaeth ar RADFFÔN 0808 8081001 neu anfon e-bost at help@nyas.net**

### Llywodraethwyr Ysgol

Mae gan bob ysgol gorff llywodraethu sy'n chwarae rhan bwysig ym mywyd yr ysgol. Mae ganddo gyfrifoldeb cyffredinol am ymddygiad yr ysgol ac ystod o gyfrifoldebau penodol, gan gynnwys rheoli cyllid yr ysgol a phenodi staff.

Mae cyrff llywodraethu yn cynnwys pobl leol a byddant yn cynnwys rhieni, pobl a benodir gan yr awdurdod lleol, athrawon, staff cymorth, penaethiaid, a hefyd cynrychiolwyr o'r gymuned fusnes leol ac eglwysi.

Bydd nifer yr aelodau yn dibynnu ar faint yr ysgol.

I gael gwybodaeth am waith cyrff llywodraethu ysgolion a manylion am sut i ddod yn llywodraethwr ysgol, cysylltwch â'r **Gwasanaeth Cyflawni Addysg, Ty Tredomen, Ystrad Mynach, Hengoed, CF82 7WF.**

**Ffôn:** 01443 863242

### Dyddiad gadael yr ysgol

Mae'r llywodraeth wedi cyflwyno un dyddiad gadael ysgol, sef y dydd Gwener olaf ym mis Mehefin yn y flwyddyn ysgol pan fydd disgybl yn cyrraedd 16 oed. Ni all disgyblion ymgymryd â chyflogaeth amser llawn tan ar ôl y dyddiad hwn.

## Cludiant i'r ysgol (ac eithrio ar gyfer addysg arbennig)

Dyma'r meini prawf ar gyfer darparu cludiant am ddim:

1. Yn gyffredinol, mae cludiant am ddim wedi'i gyfyngu i ddisgyblion o oedran ysgol statudol sy'n mynychu ysgolion eu dalgylch ac sy'n byw'r pellter angenrheidiol o'r ysgol.

   Mae'r pellteroedd a nodir yn destun adolygiad hyd at y terfyn statudol:

   **O dan 8 oed** – os ydych yn byw mwy nag 1.5 milltir o'r ysgol (terfyn statudol o 2 filltir)

   **8 oed a throsodd** – os ydych yn byw mwy na 2 filltir o'r ysgol (terfyn statudol o 3 milltir)

   Caiff pellteroedd eu mesur yn ôl y llwybr cerdded byrraf rhwng y cartref a'r ysgol gan ddefnyddio system mapio digidol GGP, fel yr argymhellir gan Lywodraeth Cymru. Mewn rhai achosion, nid yw'n bosibl trefnu llwybrau cerbydau fel eu bod yn pasio'n agos at gartref disgybl. Felly, efallai y bydd angen gwneud trefniadau iddo gyrraedd man 'codi' agosaf y cerbyd. Gwneir pob ymdrech i gadw'r pellter hwn mor fyr â phosibl ac ni ddylai fod yn fwy na milltir.

   Mae disgyblion sy'n mynychu'r ysgol wirfoddol a gynorthwyir agosaf ar hyn o bryd yn cael cludiant am ddim yn unol â'r uchod.

2. Bydd cludiant yn cael ei ddarparu i'r ysgol addas agosaf, yn amodol ar derfynau pellter. Mae'r awdurdod yn ystyried mai'r ysgol addas agosaf:

   > Yw'r ysgol sy'n darparu addysg ar gyfer oedran perthnasol disgybl ac yn nes at gyfeiriad cartref y disgybl nag ysgol y dalgylch.

   > Yw'r ysgol agosaf i fodloni'r dewis iaith yn unol â pholisi'r awdurdod ar addysg cyfrwng Cymraeg

   > Yw'r ysgol agosaf i fodloni'r dewis enwadol

3. Free transport may be provided where the Authority is satisfied that the route between home and school is sufficiently dangerous to warrant such provision, even though the distance is under those quoted above. This will be considered in line with the criteria set out in the Learner Travel Statutory Provision and Operational Guidance June 2014.

The Council's Home to School and Post 16 Transport Policy is reviewed on an annual basis, and therefore, is subject to change. **https://www.blaenau-gwent.gov.uk/en/resident/schools-learning/school-transport/**

## SNAP

Sefydliad gwirfoddol yw Snap Cymru sy'n cynnig gwybodaeth gywir, cyngor diduedd, a chymorth i deuluoedd plant a phobl ifanc.

**Tel:** 0808 8010608 **Website:** www.snapcymru.org

## Cymorth i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY)

Mae pob plentyn yn unigolyn ac yn datblygu ac yn dysgu ar gyflymder gwahanol. Mae rhai plant yn cael dysgu'n hawdd tra bod eraill yn ei chael hi'n anodd. Gyda'r cymorth cywir, mae pob plentyn yn datblygu ar ei gyflymder ei hun. Mae hyn yn golygu, o fewn ysgol, ac o fewn pob dosbarth, fod angen arddulliau addysgu gwahanol sy'n ystyried galluoedd, cryfderau, gwendidau a diddordebau'r plant. Mae'r dulliau gwahanol hyn o ddysgu yn helpu'r rhan fwyaf o blant i wneud cynnydd. Fodd bynnag, efallai y bydd angen mwy o gymorth ar rai.

- Mae gan bob ysgol bolisi ADY (ar gael gan yr ysgol) a fydd yn dweud sut mae'r ysgol yn darparu ar gyfer disgyblion ag ADY a sut y rheolir cymorth ychwanegol ac ymyriadau.
- Mae gan bob ysgol gydlynydd ADY (CADY) sy'n helpu athrawon yr ysgol i gefnogi disgyblion ag ADY yn ogystal â chydlynu cymorth ychwanegol o fewn yr ysgol.
- Mae cyllid ychwanegol i gefnogi disgyblion bellach wedi'i ddirprwyo i bob ysgol. Mae ysgolion bellach yn gallu defnyddio eu cyllid yn hyblyg i gynllunio'r cymorth gorau ar gyfer disgyblion ag ADY. Mae hyn yn sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion ag ADY yn gallu mynychu eu hysgol brif ffrwd leol ac yn cael eu cynnwys yn effeithiol yn y cyfleoedd addysgol sydd ar gael yno.
- > Ar gyfer nifer fach o ddisgyblion, efallai y bydd angen i'r ysgol ystyried llunio Cynllun Datblygu Unigol (CDU) ar gyfer eu hanghenion dysgu ychwanegol. Mae hwn yn asesiad llawn a manwl o'u hanghenion a bydd yn ystyried pa gymorth arbennig y bydd ei angen arnynt. Unwaith y bydd CDU wedi'i gwblhau, bydd penderfyniad yn cael ei wneud o ran a fydd yr ysgol neu'r awdurdod lleol yn ei gynnal. Mae CDU a gynhelir gan ysgol ac CDU a gynhelir gan awdurdod lleol yn ddogfennau cyfreithiol ac yn nodi anghenion disgybl a sut bydd yr anghenion hynny'n cael eu diwallu.
- > Er y bydd llawer o ddisgyblion ag CDU yn cael eu haddysgu yn eu hysgol leol mewn dosbarthiadau prif ffrwd, bydd angen lefel uwch o gymorth ar nifer ohonynt. Mae gan Flaenau Gwent, felly, nifer o ysgolion â chanolfannau adnoddau a all ddarparu ar gyfer disgyblion y mae angen lefel uwch o gymorth arnynt. Caiff disgyblion mewn canolfannau adnoddau eu hintegreiddio i'r brif ffrwd cymaint â phosibl.
- I rai disgyblion ag anghenion cymhleth iawn, efallai y bydd angen iddynt fanteisio ar ddarpariaeth fwy arbenigol naill ai yn ysgol arbennig Blaenau Gwent neu mewn ysgol arbennig briodol y tu allan i Flaenau Gwent.

## Trefniadau derbyn ar gyfer disgyblion â datganiadau o anghenion addysgol arbennig

Os oes gan blentyn ddatganiad o anghenion addysgol arbennig neu CDU a gynhelir gan yr awdurdod lleol, yr awdurdod lleol fydd yn gyfrifol am roi cyngor ar y ddarpariaeth addysgol arbennig sydd i'w gwneud gan yr ysgol, ac am ystyried addasrwydd yr ysgol wrth naill ai gyhoeddi neu ddiwygio datganiad yn dilyn adolygiad blynyddol neu CDU. Mae datganiadau o anghenion addysgol arbennig yn cael eu dirwyn i ben o fis Medi 2021 a dylai datganiad pob disgybl sydd ag un fod wedi cael ei drawsnewid yn CDU erbyn mis Medi 2025.

## Disgyblion anodd eu lleoli a symudiadau wedi'u rheoli

Mae gan Flaenau Gwent brotocol ar waith sy'n sicrhau bod pobl ifanc agored i niwed sy'n gwneud cais am le uwchradd y tu allan i'r cylch derbyn arferol, a/neu nad ydynt ar gofrestr ysgol, yn cael cynnig lle yn gyflym. Mae derbyniadau anodd eu lleoli a symudiadau wedi'u rheoli bellach yn dechrau cael eu rhannu'n deg ar draws pob ysgol uwchradd. Gan mai dim ond pedwar cyfleuster uwchradd sydd yn yr awdurdod lleol, lle bo'n briodol bydd y swyddog derbyn yn ystyried yr amgylchiadau unigol ac, felly, yn torri'r nifer derbyn.

### Trefniadau derbyn i ddisgyblion fynychu canolfan adnoddau neu ysgol arbennig

Panel ADY yr awdurdod lleol sy'n pennu'r trefniadau derbyn ar gyfer disgyblion ag ADY y mae angen canolfan adnoddau neu ysgol arbennig arnynt.

### Diwygio ADY

Ym mis Medi 2021, bydd pob awdurdod lleol ledled Cymru yn dechrau cyfnod pontio tair blynedd o'r broses AAA bresennol i ffordd newydd o weithio ar sail ADY a fydd yn cynnwys disodli'r defnydd o ddatganiadau gan Gynlluniau Datblygu Unigol. **Bydd y system newydd yn:** sicrhau bod pob dysgwr ag ADY yn cael ei gefnogi i oresgyn rhwystrau i ddysgu a'i fod yn gallu cyflawni ei botensial llawn, gwella'r broses o gynllunio a darparu cymorth i ddysgwyr rhwng 0 a 25 oed ag ADY, gan roi anghenion, safbwyntiau, dymuniadau a theimladau dysgwyr wrth wraidd y broses, a chanolbwyntio ar bwysigrwydd nodi anghenion yn gynnar a rhoi ymyriadau amserol ac effeithiol ar waith sy'n cael eu monitro a'u haddasu i sicrhau eu bod yn cyflawni'r canlyniadau dymunol. Mae rhagor o wybodaeth am y newidiadau hyn ar gael gan ysgolion neu gan y tîm ADY – ALNenquiries@blaenau-gwent.gov.uk

### Trefniadau derbyn ar gyfer disgyblion agored i niwed

Mae gan y Gwasanaethau Plant ddau fentor addysg sy'n gweithio ar draws yr ystod oedran ysgol statudol i gefnogi plant sy'n derbyn gofal. Ffocws eu gwaith yw cefnogi plant sy'n derbyn gofal i gyrraedd eu potensial mewn addysg. Gall gweithwyr cymdeithasol neu ysgolion wneud atgyfeiriad ar gyfer mentora. Datblygir y rhaglen gymorth rhwng athro'r plentyn a'r mentor addysg ac mae'n unigol i bob plentyn.

### Dechrau'n Deg

Mae Dechrau'n Deg yn rhaglen a ariennir gan Lywodraeth Cymru sy'n darparu gwasanaethau cymorth dwys i deuluoedd â phlant rhwng 0 a 3 oed sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig ledled Cymru.

Mae tîm Dechrau'n Deg Blaenau Gwent yn canolbwyntio ar y plentyn ac yn cynnig anogaeth, gwybodaeth ac arweiniad i gefnogi rhieni/gofalwyr ar bob cam o ddatblygiad eu plentyn, gan ddarparu cyfleoedd, gweithgareddau a rhaglenni am ddim i alluogi pob plentyn i ddatblygu ei sgiliau iaith a chymdeithasol a'i ddatblygiad emosiynol a chorfforol er mwyn bod yn barod i ddechrau yn yr ysgol.

**Ffôn:** 01495 354786 **E-bost:** sherelle.jago@blaenau-gwent.gov.uk

### Teuluoedd yn Gyntaf

Mae'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf yn cael ei hariannu gan Lywodraeth Cymru i helpu teuluoedd sy'n wynebu anawsterau. Mae'r tîm Teuluoedd yn Gyntaf yn cynnig gwahanol fathau o gymorth yn dibynnu ar angen.

Mae Teuluoedd yn Gyntaf yn ymwneud â darparu cymorth i'r teulu cyfan. Ym Mlaenau Gwent, mae gan y rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf dîm sydd wedi'i leoli'n ganolog yng Nghanolfan Integredig i Blant Calon y Cymoedd, Stryd Fawr, Blaenau. Mae'r tîm yn gweithio gyda'r teulu i edrych ar y gwahanol broblemau y gallent fod yn eu hwynebu ac i gynnig Fframwaith Asesu'r Teulu ar y Cyd i'r teulu. Mae'r broses hon yn caniatáu i anghenion pob aelod o'r teulu gael eu hamlygu a'u rheoli trwy ddyrannu gweithiwr allweddol. Yna defnyddir dull Tîm o Amgylch y Teulu i gefnogi'r teulu trwy eu taith.

Mae'r gweithiwr allweddol yn sicrhau bod gwasanaethau gwahanol yn cydweithio i gynnig y cymorth gorau, a allai gynnwys ysgolion, ymwelwyr iechyd, yr heddlu a thai.

**Rhadffôn:** 08000 32 33 39 **E-bost:** fis@blaenau-gwent.gov.uk

### Llywodraeth Cymru

Yr Adran Addysg a Sgiliau, Llywodraeth Cymru.

**Ffôn:** 0300 060 4400 **E-bost:** customerhelp@gov.wales

**Gwefan:** https://gov.wales/education-skills

### Trefniadau Derbyn

Term technegol yw hwn ar gyfer y rheolau sy'n llywodraethu'r gweithdrefnau a phenderfyniadau derbyn ar gyfer ysgol benodol neu grwp o ysgolion mewn blwyddyn benodol.

### Cod Derbyn

Mae'r ddogfen hon yn nodi'r gofynion cyfreithiol ar gyfer derbyniadau i ysgolion, apeliadau derbyn a gwaharddiadau o'r ysgol. Daeth y Cod Derbyn i Ysgolion diwygiedig a'r Cod Apelau Derbyn i Ysgolion i rym yn 2013.

### Dalgylchoedd

Neilltuir ardal ddaearyddol benodol i bob ysgol ei gwasanaethu. Nid yw byw yn nalgylch ysgol yn gwarantu lle yn yr ysgol.

### Plant o Dramor

Yn y rhan fwyaf o amgylchiadau, dim ond pan fydd eich plentyn yn byw yn y DU y dylech wneud cais am le mewn ysgol. Disgwylir i'ch plentyn fynychu ysgol cyn gynted ag y cynigir lle ac ar y dyddiad y mae'r ysgol wedi cytuno â chi iddo ddechrau. Os nad yw'ch plentyn yn gallu bod yn bresennol ar yr adeg honno, dywedwch wrthym – efallai y byddwn yn tynnu'r lle yn ôl a'i gynnig i blentyn arall. Unwaith y byddwch wedi cytuno ar ddyddiad cychwyn, bydd eich plentyn yn cael ei roi ar gofrestr yr ysgol. Os bydd eich plentyn wedyn yn methu â mynychu ac nad ydych wedi rhoi gwybod i ni nad ydych eisiau'r lle mwyach neu fod rheswm dilys pam na all fynychu ar y dyddiad hwnnw, efallai y byddwch yn wynebu achos cyfreithiol mewn perthynas â diffyg presenoldeb yn yr ysgol.

Ni ellir cadw lle nes bod eich plentyn yn cyrraedd yr ardal. Bydd yn rhaid i chi ddarparu prawf preswylio a phrawf o ddyddiad geni eich plentyn, megis llungopi o basbort neu fisa mynediad arnodedig gyda'r cais.

Os oedd eich plentyn wedi mynychu ysgol ym Mlaenau Gwent yn flaenorol ac wedi mynd dramor wedyn, mae'n debygol y bydd eich plentyn wedi'i dynnu oddi ar y gofrestr ar ôl pedair wythnos oni bai fod yr ysgol wedi cytuno'n benodol i gadw'r lle ar agor i chi. Pan fydd yn dychwelyd, rhaid i chi wedyn wneud cais am le mewn ysgol.

Sylwer efallai na fydd lle ar gael yn ysgol flaenorol eich plentyn ac efallai y bydd yn rhaid cynnig lle arall.

## Plant sy'n derbyn gofal

Mae plentyn sy'n derbyn gofal yn blentyn y mae gan yr awdurdod lleol gyfrifoldeb rhianta corfforaethol drosto. Gall plentyn sy'n derbyn gofal fyw oddi cartref naill ai o dan drefniant gwirfoddol neu drwy orchymyn cyfreithiol sy'n golygu bod gan yr awdurdod lleol gyfrifoldeb rhiant dros y plentyn. Gall plentyn hefyd fyw gartref gyda'r math hwn o orchymyn cyfreithiol yn ei le.

## Plant sy'n cael eu lletya

Pan fo plentyn yn cael ei letya gan yr awdurdod lleol, mae hwn yn drefniant gwirfoddol rhwng yr awdurdod lleol a'r teulu. Mae hyn yn golygu eich bod yn cadw eich holl hawliau a chyfrifoldebau fel rhieni ar gyfer y plentyn ac nid yw'r awdurdod lleol yn cymryd unrhyw un o'r hawliau na'r cyfrifoldebau hynny. Os ydych yn rhiant, gallwch symud eich plentyn o'r llety unrhyw bryd.

Os yw'r awdurdod lleol yn darparu llety i blentyn, rhaid iddo lunio cynllun gyda'r teulu sy'n nodi'r trefniadau a fydd yn cael eu gwneud ar gyfer y plentyn. Rhaid i hwn fod yn ysgrifenedig. Efallai fod y plentyn yn byw mewn cartref maeth neu gartref plant. Gallai'r cartref maeth fod yn gartref i berthnasau neu ffrindiau'r teulu.

Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod plentyn sy'n cael ei letya yn parhau i gael cysylltiad â'i deulu a'i ffrindiau.

## Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd

Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995.

### Mesuriadau pellter

Mae Blaenau Gwent yn mesur pellter gan ddefnyddio system mapio digidol GGP yr awdurdod fel yr argymhellir ym Mesur Teithio gan Ddysgwyr 2013 Llywodraeth Cymru. Bydd lleoedd yn cael eu dyrannu ar sail pellter ar hyd y llwybr cerdded byrraf rhwng y cartref a'r ysgol. Plant sy'n byw agosaf fydd yn cael y flaenoriaeth uchaf.

### System dewisiadau cyfartal

Mae hyn yn golygu bod pob un o'ch dewisiadau ysgol yn cael ei drin fel cais ar wahân. Ystyrir eich plentyn o dan y meini prawf goralw ar gyfer pob ysgol ar yr un pryd heb gyfeirio at y dewis a restrwyd gennych. Pan fo disgybl yn gymwys ar gyfer mwy nag un ysgol, cynigir lle iddo/iddi ym mha un bynnag o'r ysgolion hyn a nodwyd fel y dewis uchaf ar eich ffurflen gais.

### Ysgol Sefydledig

Mae hon yn ysgol lle mae'r corff llywodraethu yn cyflogi'r staff ac yn gosod y meini prawf goralw ar gyfer yr ysgol.

### Cyfeiriad Cartref

Dylai'r cyfeiriad a ddarperir fod yn gyfeiriad parhaol presennol y plentyn ar adeg y cais. Dim ond gan ddefnyddio un cyfeiriad y gellir prosesu'r cais. Os yw'r plentyn yn byw mewn cyfeiriad gwahanol i'r rhiant/gofalwr o ddydd Llun i ddydd Gwener, rhaid darparu'r gorchymyn cyfrifoldeb rhiant neu'r gorchymyn preswyliad ar gyfer yr asesiad. Os oes rhesymau pam nad yw'r plentyn yn byw yn yr un cyfeiriad â'r rhiant, rhaid i'r ddau riant/gofalwr ddatgan hyn mewn llythyr a anfonir gyda'r cais.

Os yw'r plentyn yn byw mewn mwy nag un cyfeiriad yn rheolaidd, dylai'r rhieni ddatgan lle mae'r plentyn yn treulio'r rhan fwyaf o'i amser. Rhaid i'r ddau riant/gofalwr ddatgan hyn yn unigol mewn llythyr a anfonir gyda'r cais.

Os bydd anghydfod ynghylch cyfeiriad, bydd y cyfeiriad lle telir Budd-dal Plant / Credyd Treth Plant yn cael ei ddefnyddio.

### Cyfnodau Allweddol

Mae gyrfa addysgol plentyn yn mynd trwy bedwar prif gyfnod cwricwlwm yn ôl ei oedran:

- Mae cwricwlwm y cyfnod sylfaen ar gyfer plant 3–7 oed, gan ddechrau gyda'r dosbarth meithrin ac yna mynd i ddosbarthiadau derbyn / Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2.
- Mae cwricwlwm Cyfnod Allweddol 2 ar gyfer plant 7–11 oed. Maent yn symud trwy ddosbarthiadau Blwyddyn 3, 4, 5 a 6.
- Mae cwricwlwm Cyfnod Allweddol 3 ar gyfer disgyblion 11–14 oed mewn ysgol uwchradd. Maent yn symud trwy ddosbarthiadau Blwyddyn 7, Blwyddyn 8 a Blwyddyn 9.
- Mae cwricwlwm Cyfnod Allweddol 4 ar gyfer myfyrwyr 14–16 oed sy'n pasio trwy ddosbarthiadau Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11.

## Mynediad Hwyr

Mae hyn yn cyfeirio at unrhyw gais am le ysgol a dderbynnir yn y cylch derbyn arferol ond yn hwyrach na'r dyddiad cau a roddwyd.

## Cyfrifoldeb Rhiant

Ers 2003, mae gan y rhieni a enwir ar dystysgrif geni plentyn gyfrifoldeb a hawliau rhiant awtomatig. Mae oedolion eraill hefyd yn gallu cael hawliau rhieni trwy broses gyfreithiol. Ar gyfer ceisiadau derbyn i ysgolion, rhaid i rieni ddarparu prawf bod ganddynt gyfrifoldeb cyfreithiol am y plentyn, megis llythyr Budd-dal Plant neu gopi o ddogfennau cyfreithiol sy'n dangos mai dyma'r achos.

Pan fydd rhieni'n gwahanu, dylent drafod y cais am le ysgol cyn i'r cais gael ei gyflwyno. Y rhiant y mae'r plentyn yn byw gydag ef yn bennaf ddylai wneud y cais. Lle bo'n briodol, dylid rhoi manylion y rhiant arall sydd â chyfrifoldeb rhiant a'i gyfeiriad hefyd fel y gall y tîm Trawsnewid Addysg gyfathrebu â'r ddau riant. Os oes rhesymau cyfreithiol pam na all y tîm Trawsnewid Addysg wneud hyn, rhaid darparu copi o'r gorchymyn llys perthnasol gyda'r ffurflen gais.

## Plant a oedd yn derbyn gofal yn flaenorol

Mae plant a oedd yn derbyn gofal yn flaenorol yn blant a oedd yn derbyn gofal yn y gorffennol ond nid heddiw, am iddynt gael eu mabwysiadu neu ddod yn destun gorchymyn preswyliad neu orchymyn gwarcheidiaeth arbennig.

## Rhannu gwybodaeth am ddisgyblion

Bydd pob ysgol yn casglu gwybodaeth bersonol fanwl am eich plentyn a'ch teulu. Mae hyn er mwyn cadw mewn cysylltiad â chi a gwybod pethau pwysig am iechyd a diogelwch eich plentyn fel y gall staff yr ysgol ymateb yn gywir. Efallai y gofynnir i chi rannu gwybodaeth am unrhyw faterion amddiffyn plant ac oedolion sy'n byw yn eich ty yn ogystal â gweithwyr proffesiynol eraill a allai weithio gyda'ch teulu. Mae'n bwysig cydweithredu â'r ceisiadau hyn oherwydd eu bod yn ymwneud â deddfwriaeth amddiffynnol ac ni chaiff yr wybodaeth a geir ei defnyddio at unrhyw ddiben nad ydym yn dweud wrthych amdano ymlaen llaw. Os ydych yn pryderu am hyn, gallwch ei drafod gydag aelod o'r Gwasanaeth Lles Addysg.

## Brodyr a chwiorydd

Mae'r categori hwn yn cynnwys brodyr a chwiorydd, brodyr a chwiorydd maeth, hanner brodyr a chwiorydd, a llysfrodyr a llyschwiorydd. Fodd bynnag, dylai rhieni nodi, ym mhob un o'r achosion hyn, bod yn rhaid i'r brawd neu'r chwaer fod yn byw yn yr un cyfeiriad â'r plentyn y gwneir y cais ar ei gyfer. I wirio hyn, efallai y byddwn yn gofyn i chi am dystiolaeth o ble mae Budd-dal Plant yn cael ei dalu.

## Anghenion dysgu ychwanegol

Mae anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn derm penodol gyda set gysylltiedig o ddiffiniadau sy'n nodi lle dylai disgyblion penodol dderbyn cymorth ac adnoddau ychwanegol. Diffinnir y rhain mewn dogfen awdurdodedig o'r enw 'datganiad'. Cychwynnodd Deddf Addysg 1981 yr ystod hon o hawliau a ffyrdd o weithio. Ers hynny, mae ei darpariaethau wedi'u cefnogi gan Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995 a Deddf Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd 2001.

## Ysgolion arbennig

Mae'r ysgolion hyn ond ar gyfer plant sydd â datganiadau o anghenion addysgol arbennig sy'n enwi ysgol benodol. Maent yn darparu ar gyfer plant y mae eu hanghenion mor gymhleth fel na allant gael eu haddysgu mewn ysgol brif ffrwd.

## Oedran ysgol statudol

Argymhellwn fod pob disgybl yn dechrau'r ysgol yn y mis Medi cyn y flwyddyn y mae'n troi'n 5 oed. Fodd bynnag, yn gyfreithiol nid oes rhaid i blentyn fod yn yr ysgol nes ei fod o oedran ysgol statudol.

Oedran ysgol statudol yw'r amser y mae'n rhaid i blentyn dderbyn addysg amser llawn.

Mae oedran ysgol statudol yn dechrau ar yr oedran y mae'n rhaid i'ch plentyn ddechrau'r ysgol. Mae'n ddechrau'r tymor yn syth ar ôl pen-blwydd eich plentyn yn 5 oed.

Y dyddiad gadael ysgol statudol yw'r dyddiad y caniateir i'ch plentyn, yn ôl y gyfraith, adael yr ysgol uwchradd.

## Ysgol wirfoddol a gynorthwyir

Mae hon yn ysgol a ariennir gan y wladwriaeth lle mae sefydliad neu ymddiriedolaeth (sefydliad crefyddol fel arfer) yn cyfrannu at gostau'r adeilad ac yn dylanwadu'n sylweddol ar sut caiff yr ysgol ei rhedeg.

## Rhestr aros

Pan fydd rhieni'n ceisio lle mewn ysgol sydd eisoes yn llawn, gallant roi enw eu plentyn ar restr aros. Mae'r rhestr hon yn rhoi plant mewn trefn flaenoriaeth yn unol â'r meini prawf derbyn. Pan ddaw lle ar gael, cynigir y lle nesaf i'r plentyn ar frig y rhestr. Mae hyn yn golygu nad yw'r rhestr aros yn ymwneud â'r cyfnod o amser y mae plentyn wedi bod arni. Gall plant symud i fyny ac i lawr y rhestr.

## HYSBYSIAD PREIFATRWYDD

Bydd y cyngor yn prosesu eich data personol yn unol â deddfwriaeth diogelu data. I gael rhagor o wybodaeth a chyrchu hysbysiadau preifatrwydd sy'n amlinellu sut mae'r cyngor yn trin eich data personol, cliciwch ar y ddolen ganlynol i fynd i'r adran diogelu data ar wefan y cyngor:

**https://www.blaenau-gwent.gov.uk/media/y5adffhd/privacy_notice_-welsh.pdf**

